# Addysgu a dysgu yn yr awyr agored: cyflwr presennol dysgu yn yr awyr agored mewn ysgolion yng Nghymru

## Ymchwil

Rhif y ddogfen ymchwil: 76/2023
Dyddiad cyhoeddi: Medi 2023

# Addysgu a dysgu yn yr awyr agored: cyflwr presennol dysgu yn yr awyr agored mewn ysgolion yng Nghymru

| | |
|---|---|
| ***Cynulleidfa*** | Cynhaliwyd y prosiect hwn fel rhan o'r Rhwydwaith Tystiolaeth Cydweithredol. Mae'r canfyddiadau wedi'u hanelu at lunwyr polisi ac Awdurdodau Lleol, a all gefnogi ysgolion ac ymarferwyr i ddatblygu polisi, arweiniad, adnoddau a datblygiad proffesiynol dysgu awyr agored ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru. |
| ***Trosolwg*** | Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau adolygiad cynhwysfawr o lenyddiaeth ac arolwg wedi'i ddilysu a anfonwyd at nifer o ysgolion a ddewisodd wneud hyn, i gael cipolwg/darlun cynrychioliadol, darparu peilot o'r ddarpariaeth dysgu awyr agored bresennol yng Nghymru.<br><br>Awduron: Graham French, David Parry (Bangor University); Cath Jones, Robyn McQueen, Pavla Boulton (University of South Wales); Sue Horder, Karen Rhys-Jones, Lisa Formby, Lisa Sheriff, Liz Sheen (Wrexham Glyndŵr University) |
| ***Camau i'w cymryd*** | Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod angen strategaeth gydlynol a dyraniad cyllideb i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i guradu adnoddau dysgu awyr agored mewn fformat hygyrch a lleoliad / storfa sengl, gan ddarparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol i'r gweithlu addysg a chynyddu ymwybyddiaeth o ddysgu yn yr awyr agored fel addysgeg hyfyw ac effeithiol yn hytrach na gweithgaredd cyfoethogi yn y gweithlu presennol ac mewn rhaglenni addysg gychwynnol athrawon. |
| ***Gwybodaeth bellach*** | Ysgol Gwyddorau Addysgol School of educational sciences<br>Prifysgol Bangor University<br>e-mail: g.k.french@bangor.ac.uk |

@WG_Education

Facebook/EducationWales

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron 2023 ISBN Digidol 978-1-83504-718-7 LIC48521

## Cynnwys


Rhagarweiniad 4
2. Adolygiad Llenyddiaeth 6
3. Y Fethodoleg 15
4. Canfyddiadau 19
5. Trafodaeth 26
6. Casgliadau 29
7. Cyfeiriadau 32
8. Atodiadau 35

## Rhestr o Dablau

Tabl 1 Cymharu cynllun yr ymchwil ........................................................................ 17
Tabl 2 Dull samplo ........................................................................................ 17
Tabl 3 Crynodeb o sampl yr ysgolion ..................................................................... 18
Tabl 4 Amrediad oedran y disgyblion yn y sesiynau ........................................................ 20
Tabl 5 Ffocss y sesiynau ................................................**Error! Bookmark not defined.**
Tabl 6 Meysydd cwricwlwm yr ymdriniwyd â nhw ............................................................ 22
Tabl 7 Cysylltiadau'r sesiwn â'r pedwar diben ........................................................... 23
Tabl 8 Gwobrau/cynlluniau ............................................................................... 23
Tabl 9 Effaith y sesiwn ar ddysgu ....................................................................... 23
Tabl 10 Ffocws y sesiynau a gynlluniwyd ac a ddigwyddodd ................................................ 24
Tabl 11 Meysydd cwricwlwm a gynlluniwyd ac a ddigwyddodd ................................................ 25

## Rhestr o Ffigurau

Ffigur 1 Ymateb yr ysgolion i'r holiaduron .............................................................. 19
Ffigur 2 Ymatebion yr ysgolion yn ôl canradd MALIC ...................................................... 20
Ffigur 3 Yr oedolion a oedd yn ymwneud â sesiynau dysgu yn yr awyr agored cyfunol . 21

## Geirfa

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| LIC | Llywodraeth Cymru |
| NSERE | Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol |
| AGA | Addysg Gychwynnol Athrawon |
| IOL | Institute for Outdoor Learning |
| RSPB | Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar |
| DPP | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| STEM | Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg |
| SAU | Sefydliad Addysg Uwch |
| ALI | Awdurdod Lleol |
| MALIC | Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru |
| RhTG | Rhwydwaith Tystiolaeth Gydweithredol? |

## Rhagarweiniad

Fel rhan o Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (NSERE) Llywodraeth Cymru (LlC), comisiynwyd nifer o brojectau ymchwil cydweithredol (a ariennir gan Lywodraeth Cymru) yn 2020 i ystyried effaith Covid 19 mewn ysgolion mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Roedd un o'r astudiaethau rhagarweiniol hynny'n ymchwilio i effaith pandemig Covid 19 ar iechyd a llesiant plant, pobl ifanc, gweithwyr addysg proffesiynol a darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) (French, Horder, Jones, Parry, Mahoney, Moody a Rhys Jones, 2021). Nododd yr astudiaeth fod 'Dysgu yn yr awyr agored yn chwarae rhan gynyddol, yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol, wrth gefnogi lles corfforol a meddyliol', ac roedd argymhelliad dilynol yn galw am '… fwy o gefnogaeth i ddysgu yn yr awyr agored.'

Mae'n amlwg o'r astudiaeth flaenorol bod dysgu yn yr awyr agored wedi chwarae rhan arwyddocaol yn iechyd a lles plant a phobl ifanc yn ystod y pandemig, felly mae'n rhesymol awgrymu y bydd yn parhau i chwarae rhan wrth gefnogi cymunedau ysgolion a'u haelodau wrth iddynt ddod dros yr aflonyddwch corfforol, cymdeithasol ac emosiynol a achoswyd o'i herwydd. Mae'r astudiaeth gyfredol hon yn ceisio darparu tystiolaeth gadarn i gefnogi datblygiad addysgeg dysgu awyr agored mewn rhaglenni AGA. Mae hyn yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodir yng nghynllun Adnewyddu a Diwygio Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg (2021), i gefnogi lles a dilyniant dysgwyr.

Ar hyn o bryd mae bwlch yn y sylfaen dystiolaeth ynghylch pa mor aml y mae ysgolion yn cymryd rhan mewn dysgu yn yr awyr agored, ac ar ba ffurf y mae'r dysgu yn yr awyr agored. Mae hyn yn golygu, er gwaethaf y mwy o gefnogaeth y mae'r adroddiad hwn yn galw amdano, bydd y nodau hyn yn anodd eu mesur a'u cyflawni, sef y cyfleoedd dilynol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a amlygwyd yn y Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2021), a fforddiadwyedd naturiol ein mynediad at fannau ac adnoddau awyr agored yng Nghymru. Er mwyn sicrhau mynediad dwyieithog cyfartal ac o ansawdd uchel i ddysgu yn yr awyr agored i holl blant Cymru, mae angen gweledigaeth strategol genedlaethol arnom, ac mae angen i hyn gael ei lywio gan y sefyllfa bresennol o ran y ddarpariaeth. Nid yw'r wybodaeth hon gennym.

Mae heriau i ddarparu diffiniad cryno o ddysgu yn yr awyr agored , fel y nodwyd gan yr Institute for Outdoor Learning (IOL, 2021). Mae rhinweddau unigryw dysgu yn yr awyr agored yn atal diffiniad penodol ac mae gormod o fanylion yn cyfyngu ar y ffocws. O ganlyniad, gall hyn eithrio'r ystod eang o weithgareddau, dulliau a lleoliadau sy'n gallu disgrifio dysgu yn yr awyr agored. Yr hyn sy'n glir o adroddiad IOL yw bod eu diffiniad yn ystyried dysgu yn yr awyr agored fel *'term ymbarél ar gyfer dulliau gweithredu wedi eu hwyluso sy'n weithredol gynhwysol, sy'n defnyddio gweithgareddau a phrofiadau yn yr awyr agored yn bennaf sy'n arwain at ddysgu, gwell iechyd a lles ac ymwybyddiaeth amgylcheddol'.* Mae cynwysoldeb yn werth craidd i'r IOL. Mae cael llinell wahanu rhwng yr hyn a ystyrir yn ddysgu yn yr awyr agored, a'r hyn nad yw'n cael ei ystyried, yn cyfyngu ar natur gynhwysol dysgu yn yr awyr agored. Mae unrhyw 'ddiffiniad' sydd mor eang (fel nad yw'n cau allan unrhyw un) yn dod yn anymarferol mewn gwirionedd. Mae edrych ar y ddau ddull (bod â diffiniad a bod yn gynhwysol) fel rhywbeth sy'n annibynnol ar ei gilydd, yn creu diffyg eglurder ac yn arwain at y problemau epistemolegol ynghylch sut mae athrawon yn deall y defnydd o'r awyr agored i gefnogi dysgu. Mae Maynard *et al.'s* (2011) yn honni bod y syniad bod 'gwaith go iawn' i'w weld yn digwydd mewn ystafelloedd

dosbarth ac astudiaeth Bilton a Waters (2017), sy'n awgrymu bod gwahaniaethau ym marn ac agweddau athrawon tuag at y dylanwadau sy'n gyrru dysgu yn yr awyr agored, yn enghreifftiau o'r diffyg dealltwriaeth hwn.

Mae Learning and Teaching Scotland (2010) yn dadlau 'learning need not take place solely within educational buildings' (t.3). Yn ogystal, mae eu hadroddiad yn mynd ymlaen i awgrymu;

'Well-constructed and well-planned outdoor learning helps develop the skills of enquiry, critical thinking and reflection necessary for our children and young people to meet the social, economic and environmental challenges of life in the 21st century. Outdoor learning connects children and young people with the natural world, with our built heritage and our culture and society.' (t.7). Mae hyn yn cyd-fynd yn dda â'r cysyniad o 'gynefin' yn y cwricwlwm newydd lle rydym yn dymuno cysylltu plant a phobl ifanc â'r lle y maent yn perthyn a lle cânt eu hannog a'u cefnogi i ymgysylltu â'r amgylchedd o'u cwmpas (Llywodraeth Cymru, 2021).

Mae Forbes a Hollyhock (2014) yn cyfeirio at ddysgu yn yr awyr agored fel 'ystafell ddosbarth estynedig'. Mae'r ystafell ddosbarth estynedig yn gweld yr ysgol yn ganolbwynt, mae mannau dysgu yn ymledu o'r canolbwynt hwn ac yn cynnwys tiroedd yr ysgol, yr ardal gyfagos o amgylch yr ysgol, y dref a'r gymuned ehangach, a hyd yn oed y byd ehangach. Mae Forbes a Hollyhock yn dadlau nad yr ystafell ddosbarth yw'r unig le, na'r gofod gorau bob amser, ar gyfer dysgu yn y senario hwn. Mae gan y defnydd o ddysgu yn yr awyr agored y potensial i gefnogi'r genhadaeth genedlaethol yng Nghymru i wella addysg drwy'r Cwricwlwm i Gymru (LlC, 2021). Bydd ysgolion yn cael eu hannog i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain sy'n hyrwyddo cydweithio a chynllunio, dysgu ac addysgu trawsddisgyblaethol i alluogi dysgwyr i ddatblygu tuag at bedwar diben y cwricwlwm.

Yng Nghymru, mae cyfle ar hyn o bryd i nodi beth allai'r egwyddorion dylunio pedagogaidd fod a sut y gellir eu rhoi ar waith, o ystyried bod y genedl mewn cyfnod o newid yn y cwricwlwm; mae'r cwricwlwm newydd hwn wedi'i ganoli ar fwy na chynnwys, ac mae'n gofyn am wahanol addysgeg. Mae dealltwriaeth o addysgeg dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth draddodiadol yn cynnig ystod o ddulliau i ysgolion sy'n helpu dysgwyr i feithrin cysylltiadau ar draws eu gwahanol brofiadau dysgu, gwybodaeth a sgiliau (Llywodraeth Cymru, 2021).

Er mwyn cefnogi datblygiad addysgeg dysgu yn yr awyr agored mewn rhaglenni AGA ac mewn ymdrech i ddatblygu sylfaen dystiolaeth i gefnogi cyfleoedd dysgu proffesiynol, mae'r project hwn yn defnyddio dull gweithredu y dangoswyd iddo fod yn effeithiol ac yn ddibynadwy mewn ysgolion yn yr Alban i ddarparu tystiolaeth o gapasiti i ddysgu yn yr awyr agored. (Mannion, Mattu, a Wilson, 2015). Mae'r allbwn a ragwelir yn caniatáu ar gyfer dosbarthu adnoddau'n effeithiol ac i nodi a rhannu unrhyw ymarfer effeithiol. Mae'r astudiaeth yn yr Alban wedi'i gweinyddu'n hydredol ers 2006 ac mae bellach yn cadw set ddata sylweddol i gefnogi ymhellach ymarfer a darpariaeth dysgu yn yr awyr agored. Mae gan yr astudiaeth hon y potensial i sefydlu'r llinell sylfaen ar gyfer data o'r fath yng Nghymru.

# 2. Adolygiad Llenyddiaeth

## 2.1. Rhagarweiniad

Mae’r llenyddiaeth a adolygwyd yn edrych ar sut mae dysgu yn yr awyr agored yn cael ei ddefnyddio mewn ysgolion i gefnogi dysgu ac addysgu o safbwyntiau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae’r adran hon yn darparu adolygiad o lenyddiaeth sy’n ystyried y defnydd o ddysgu yn yr awyr agored mewn ysgolion, ac yn ystyried ymchwil o ystod o leoliadau er mwyn cyfosod canfyddiadau ac argymhellion a all lywio'r astudiaeth hon.

O safbwynt Addysg Gymraeg, mae Adroddiad *Pob Plentyn yn yr Awyr Agored Cymru* (RSPB, 2012) yn dwyn ynghyd ymchwil o ystod o astudiaethau, ac yn pwysleisio manteision bod yn yr awyr agored ac ym myd natur i blant a phobl ifanc. Yn fwyaf nodedig, dangoswyd bod dysgu yn yr awyr agored yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu, iechyd a llesiant. Mae'r adroddiad yn nodi bod plant yn dyfalbarhau gyda gweithgareddau yn hirach tra byddant yn yr awyr agored ac yn rhoi cynnig ar bethau newydd. Mae’n dod i’r casgliad y gall dysgu yn yr awyr agored wella ymgysylltiad a mwynhad plant, yn ogystal â chefnogi datblygiad personol, ymddygiad a llesiant, datrys problemau, ac ymholi yn yr awyr agored. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn nodi bod dysgu yn yr awyr agored yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol gan y gall natur fod yn gymhelliant i gynyddu mwynhad bywyd a chefnogi ymlacio; gall dysgu yn yr awyr agored hefyd gefnogi dysgu plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r adroddiad hefyd yn awgrymu y gellir datblygu sgiliau personol a chymdeithasol trwy ddysgu yn yr awyr agored, a gall hyn gynyddu’r ymdeimlad o hyder trwy wella gallu corfforol a hunanddelwedd gadarnhaol, a thrwy hynny, gynyddu lles meddyliol cadarnhaol. Mae Adroddiad *Pob Plentyn yn yr Awyr Agored Cymru* RSPB, 2012) hefyd yn dadlau y gall tlodi ac anghyfiawnderau cymdeithasol croestoriadol eraill chwarae rhan negyddol yn y modd y mae rhai plant a phobl ifanc yn cael mynediad i ddysgu yn yr awyr agored oherwydd diffyg mannau gwyrdd. Mae argymhellion yn awgrymu bod angen mwy o gyllid ar gyfer ysgolion, ynghyd ag arweiniad ar sut i ddarparu cyfleoedd rheolaidd i gael mynediad at brofiadau awyr agored. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod staff addysgu wedi’u hyfforddi’n briodol a’u bod yn teimlo’n hyderus ac yn ymroddedig i gyflwyno’r ddarpariaeth hon. Gellir cefnogi hyn hefyd mewn rhaglenni addysg gychwynnol athrawon a chyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) rheolaidd, sef argymhellion gan yr astudiaeth French *et al*. (2021).

Mae’r adolygiad hwn o lenyddiaeth yn ystyried ymchwil i ddysgu yn yr awyr agored mewn gwahanol leoliadau yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Y themâu allweddol yw:

- Cydnabod manteision dysgu yn yr awyr agored i'r dysgwr a'r athro/athrawes
- Y gwahaniaeth o ran cyfleoedd mewn lleoliadau cynradd ac uwchradd
- Heriau sy'n gysylltiedig â chanfyddiadau o risg, cyllid, gweithio mewn partneriaeth, dysgu proffesiynol athrawon, a chefnogi polisïau

## 2.2. Astudiaethau Aml-gyfnod Blaenorol

Yn 2006, comisiynwyd Prifysgol Stirling gan Lywodraeth yr Alban i gynnal arolwg o ddarpariaeth ysgol a chyn-ysgol mewn perthynas ag addysgu, dysgu a chwarae yn yr awyr agored. Casglodd yr ymchwil swm sylweddol o dystiolaeth a data: n=53 o sefydliadau cyn-ysgol ac ysgolion, ar draws 22 ardal awdurdod lleol yn yr Alban, dros ddau gyfnod tebyg

yn ystod tymhorau'r haf 2006 a 2014 (Mannion, Mattu, ac Wilson, 2015). Nod yr ymchwil oedd archwilio cwmpas ac ystod y dysgu yn yr awyr agored a gynigir gan ysgolion a sefydliadau cyn-ysgol ledled yr Alban. Roedd yr arolwg, a gwblhawyd gan athrawon yn eu lleoliadau addysgol unigol, yn ceisio cynnwys yr holl ddysgu ffurfiol yn yr awyr agored, ar draws yr holl weithgareddau (ac eithrio addysg gorfforol neu amser egwyl). Cynhaliwyd yr arolwg parhaus dros fis Mai a mis Mehefin yn y ddau gyfnod, gyda sefydliadau cyn-ysgol yn para pythefnos ac ysgolion yn para 8 wythnos. Mae canfyddiadau astudiaeth yr Alban (Mannion *et al.,* 2015) yn dod i'r casgliad, er bod athrawon wedi adrodd am fanteision dysgu a chwarae yn yr awyr agored (o ran cynyddu gweithgaredd a chydweithio, hwyl a mwynhad a gwella lefel yr her ar draws ystod o bynciau), nododd y canfyddiadau hefyd yr heriau allweddol sy'n gysylltiedig â chefnogi dysgu yn yr awyr agored. Mae'r astudiaeth yn nodi bod angen rhaglen gynhwysfawr o gefnogaeth, gan gynnwys cefnogaeth ariannol, datblygiad proffesiynol i athrawon, gweithio mewn partneriaeth, a chefnogaeth polisi.

Archwiliwyd y defnydd o ddysgu yn yr awyr agored hefyd mewn astudiaeth gan Brifysgol Plymouth (Gilchrist ac Emmerson, 2016). Fe wnaeth project pedair blynedd (2012 i 2016), a ariannwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), Natural England, a Historic England, ddefnyddio ymchwil a oedd yn bodoli eisoes a oedd yn archwilio dysgu yn yr awyr agored yn yr amgylchedd naturiol a thu allan i ystafelloedd dosbarth i ymchwilio i a gwerthuso strategaethau dysgu llwyddiannus i gefnogi dysgu yn yr awyr agored mewn ysgolion. Cymerodd 125 o ysgolion ran yn y project gan gynnwys dros 40,000 o ddisgyblion, 2,500 o athrawon a 2,500 o gynorthwywyr addysgu o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig. Roedd arweinwyr hybiau, a oedd yn cefnogi'r astudiaeth fel rhan o'r model a ddefnyddiwyd yn y project 'Natural Connections Demonstration', yn gyfrifol am recriwtio a gwella gwaith ysgolion ac yn cynnig cyngor wyneb yn wyneb arbenigol i ysgolion ar ddysgu yn yr awyr agored. Roedd gweithgareddau datblygu yn diwallu anghenion ysgolion ac roedd cefnogaeth i ysgolion yn canolbwyntio ar helpu ysgolion i feithrin eu gwybodaeth a'u hyder i gyflwyno dysgu cwricwlaidd yn yr awyr agored mewn ffordd greadigol ac effeithiol. Sefydlodd pob ysgol a gymerodd ran yn y project eu tîm dysgu yn yr awyr agored eu hunain (gan gynnwys arweinydd dysgu yn yr awyr agored, uwch reolwyr, llywodraethwyr, staff a rhieni). Nod y dull hwn o weithredu oedd cefnogi newidiadau cynaliadwy ysgolion i hyrwyddo cyflwyno gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored yn y tymor hir.

Gwerthuswyd y project gan ddefnyddio cyfweliadau, arolygon ac astudiaethau achos. Dangoswyd bod y buddion i ddisgyblion yn cynnwys mwynhau gwersi, lefelau uwch o ymgysylltu a chefnogi iechyd a lles disgyblion. Roedd y buddion i athrawon yn dangos cynnydd mewn boddhad swydd ac effaith ffafriol ar eu hymarfer addysgu a'u datblygiad proffesiynol, gan arwain at effaith gadarnhaol ar iechyd a lles. Roedd argymhellion y project yn cynnwys dull ysgol gyfan o ddysgu yn yr awyr agored, gan ddefnyddio nid yn unig tiroedd ysgol ond hefyd mannau cymunedol lleol. Yn ogystal, bu cydweithio ar draws ysgolion, a arweiniodd at ddatblygu cymunedau dysgu a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer yr holl staff.

Archwiliwyd astudiaethau eraill mewn adolygiad systematig o erthyglau Saesneg ac Almaeneg a adolygwyd gan gymheiriaid gan Becker, Lauterbach, Spengler, Dettweiler a Mess (2017). Roedd y rhain yn ceisio archwilio'r llenyddiaeth yn ymwneud â dimensiynau dysgu, cymdeithasol ac iechyd myfyrwyr mewn addysg awyr agored gorfodol yn y cwricwlwm. Cafodd tair ar ddeg o astudiaethau achos eu cynnwys o ysgolion cynradd ac

uwchradd o dros saith gwlad, gyda dwy ohonynt o'r Deyrnas Unedig. Dangosodd un ar ddeg o astudiaethau effeithiau cadarnhaol, dangosodd un astudiaeth effeithiau cadarnhaol a negyddol, ac adroddodd un astudiaeth effeithiau negyddol yn unig. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y gall addysg awyr agored sy'n seiliedig ar y cwricwlwm gefnogi dimensiynau cymdeithasol, academaidd a ffisiolegol (Becker *et al.,* 2017). Fodd bynnag, nid oedd digon o ddata ategol i ddangos yr effaith ar weithgarwch corfforol neu iechyd meddwl. Yn ogystal, mae'r adolygiad yn awgrymu bod tystiolaeth o addysg awyr agored mewn sawl pwnc, gan gynnwys prosesu data thematig a datrys problemau. Nodwyd hefyd bod y sgiliau cymdeithasol a ddysgwyd yn yr awyr agored hefyd yn cael eu defnyddio mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn. Gwelwyd cynnydd mewn cymhelliant ar gyfer dysgu mewn rhai o'r astudiaethau a adolygwyd, a nodwyd hyn fel pwynt ar gyfer ymchwil bellach. Nododd Becker *et al.* (2017) hefyd bod cymhwysedd cymdeithasol a chynnydd mewn hunan-barch, hyder, ymdeimlad o berthyn, a ffurfio perthynas wedi'u datblygu o ganlyniad i weithgareddau dysgu awyr agored, ond eto i raddau helaeth, nid oedd digon o adroddiadau am weithgarwch corfforol ac iechyd meddwl.

### 2.2.1. Blynyddoedd Cynnar ac Ysgolion Cynradd

Roedd astudiaeth gan Maynard, Waters a Clement (2011) yn canolbwyntio ar wyth o athrawon Cyfnod Sylfaen yn Ne Cymru a gafodd gymorth i archwilio projectau wedi'u hysbrydoli gan Reggio yn amgylcheddau awyr agored eu lleoliadau. Casglwyd data trwy gyfweliadau cychwynnol, interim, a therfynol lled-strwythuredig ag wyth o athrawon a gymerodd ran. Casglwyd hefyd arsylwadau a thystiolaeth ddogfennol megis ffotograffau, cynlluniau ymarferwyr a nodiadau gwerthuso, dyddlyfrau adfyfyriol, ac ati. Canfu'r astudiaeth er bod yr athrawon wedi mabwysiadu dulliau a oedd yn canolbwyntio'n fwy ar y plentyn. Roedd hyn, yn rhannol, yn ymwneud â'r cyd-destun awyr agored y cynhaliwyd yr archwiliadau ynddo. Fodd bynnag, nododd yr astudiaeth hefyd nad oedd cefnogi dulliau o'r fath yn hawdd i'r athrawon: er nad oedd llawer yn gwneud defnydd rheolaidd o'u mannau awyr agored, roedd ymatebion athrawon yn nodi eu bod yn gweld bod 'gwaith go iawn' yn digwydd *yn* yr ystafelloedd dosbarth, lle gallent ganolbwyntio ar addysgu a dysgu cynnwys pwnc. Roedd yr ymchwilwyr yn cydnabod yr heriau o argyhoeddi ymarferwyr bod dysgu sy'n cael ei ysgogi gan y plentyn/sy'n canolbwyntio ar y plentyn sy'n digwydd yn yr awyr agored yn cyfrif fel 'gwaith go iawn'. Yn ogystal, dadleuwyd ganddynt nad yw adnabod cysylltiadau rhwng ymarfer sy'n cael ei ysgogi gan y plentyn/ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn, a'r amgylchedd awyr agored, o fawr o ddefnydd os nad yw ymarferwyr wedi'u hargyhoeddi o werth dulliau o'r fath, ac nad ydynt yn mynd â'r plant allan i'r awyr agored. Mae eu gwaith felly yn awgrymu nad yw rhoi cyfle i blant archwilio a chwarae yn yr awyr agored a gofyn cwestiynau agored i blant am eu gweithgareddau a'u hymchwiliadau yn ddigon ynddo'i hun. Er mwyn gofyn cwestiynau a chynnal rhyngweithio sy'n herio, cefnogi ac ymestyn meddwl plant, mae angen i ymarferwyr fod yn hynod fedrus (Maynard a Chicken, 2010). Mae cyflawni'r lefel hon o sgil addysgeg yn cymryd amser, a gall ymwneud â pharodrwydd a gallu ymarferwyr i adfyfyrio ar eu hymarfer a'i ddatblygu.

Archwiliwyd y syniad o asesu dysgu yn yr awyr agored gan Davies a Hamilton (2018), ar ôl nodi bwlch yn y llenyddiaeth. Fe wnaeth eu hastudiaeth bragmatig, dulliau cymysg a oedd yn canolbwyntio ar ymarferwyr blynyddoedd cynnar, ddatgelu bod ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r defnydd o ddysgu yn yr awyr agored, ac yn cydnabod bod ysgogwyr polisi yn effeithio ar yr amser a neilltuwyd ar gyfer dysgu ac asesu yn yr awyr agored. Roedd

cydnabyddiaeth hefyd bod angen hyfforddiant pellach i gefnogi asesu dysgu yn yr awyr agored. Fodd bynnag, nododd canfyddiad diddorol yn yr astudiaeth hon fod athrawon fel rheol yn cynnal asesiadau dan do, tra bod cynorthwywyr addysgu yn fwy tebygol o asesu dysgu yn yr awyr agored yn ffurfiannol. Yn debyg i waith Maynard *et al* (2011), mae ymchwil Davies a Hamilton (2018) yn dangos nad yw dysgu yn yr awyr agored wedi'i gydnabod eto fel addysgeg ddefnyddiol a all gynorthwyo gyda phob agwedd ar y cwricwlwm.

Defnyddiodd astudiaeth a gynhaliwyd gan Bilton a Waters (2017) arolwg ar-lein ansoddol a meintiol a oedd yn ceisio deall y dylanwadau sy'n gyrru darpariaeth dysgu yn yr awyr agored yng Nghymru a Lloegr. Cymharodd yr astudiaeth farn ac agweddau athrawon mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar i bennu eu canfyddiadau o ddarpariaeth dysgu yn yr awyr agored a'u bwriadau yn eu lleoliadau eu hunain. Yn y sampl Saesneg, ymatebodd 184 o athrawon, a darparodd sampl Cymru 79 o ymatebion. Daeth y canfyddiadau i'r casgliad bod y nodau ar gyfer dysgu yn yr awyr agored, o sampl Lloegr, yr un fath ag ar gyfer lleoliad dan do; roedd canlyniadau dysgu allweddol yn cynnwys datblygiad corfforol, tueddiadau ar gyfer dysgu a datblygiad personol, ac yn cefnogi honiadau Maynard *et al.* (2011) sef y syniad bod 'gwaith go iawn' i'w weld yn digwydd mewn ystafelloedd dosbarth ac yn canolbwyntio ar ddysgu cynnwys pwnc. Mewn cyferbyniad, canfu Bilton a Waters (2017) yn sampl Cymru, er bod un o'r nodau mwyaf cyffredin ar gyfer dysgu yn yr awyr agored yn ymwneud â datblygiad corfforol, roedd y data hefyd yn dangos bod gweithgareddau'n ymwneud â chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a datblygu sgiliau llythrennedd plant hefyd yn flaenoriaeth. Mae'r dystiolaeth yn astudiaeth Bilton a Waters (2017) yn awgrymu bod gwahaniaethau ym marn ac agweddau athrawon tuag at y dylanwadau sy'n llywio dysgu yn yr awyr agored yng Nghymru a Lloegr, ac yn awgrymu diffyg cysylltiad o ran deall nodau addysgol a deilliannau dysgu dilynol mewn perthynas â dysgu yn yr awyr agored. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan adrannau Addysg mewn llywodraethau datganoledig ar draws y Deyrnas Unedig. Mae argymhellion o'r astudiaeth yn cynnwys darparu dealltwriaeth gliriach o nodau a deilliannau mewn addysg blynyddoedd cynnar, yn benodol y cysylltiadau rhwng y nod a'r deilliannau dysgu cynlluniedig ar gyfer pob dysgu, gan gynnwys y ddarpariaeth awyr agored.

Archwiliodd astudiaeth bellach gan Marchant, Todd, Cooksey, Dredge, Jones, Reynolds, Stratton, Dwyer, Lyons a Brophy (2019) safbwyntiau a phrofiadau penaethiaid, athrawon a disgyblion o raglen dysgu yn yr awyr agored yng nghyfnod allweddol 2 yn Ne Cymru. Cytunodd ysgolion i gyflwyno o leiaf un sesiwn dysgu yn yr awyr agored yr wythnos. Casglwyd data gan ddefnyddio cyfweliadau lled-strwythuredig (n=13) a grwpiau ffocws (n=10) ar ddechrau'r astudiaeth a chwe mis ar ôl ei rhoi ar waith. Nododd canfyddiadau'r astudiaeth fod disgyblion ac athrawon wedi siarad am ymgysylltiad cynyddol â dysgu ac amgylchedd yr ysgol pan fyddant yn yr awyr agored. Teimlai penaethiaid fod gan y plant hawl i fod yn yr awyr agored ac eto, roedd eu mynediad i chwarae yn yr awyr agored, ar gyfartaledd, yn lleihau. O ganlyniad, gwelwyd bod amlygu'r disgyblion i fyd natur yn gyfle i gynyddu bod yn yr awyr agored, a gwneud iawn am lai o chwarae yn yr awyr agored. Gwelwyd bod dod i gysylltiad â natur yn cefnogi plant i ddod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd. Nododd yr athrawon fod diogelwch yn bryder cychwynnol, ond unwaith iddynt fuddsoddi yn yr astudiaeth, teimlai athrawon fod hyn yn llai o bryder a sefydlwyd ffiniau (Marchant *et al*., 2019). Fodd bynnag, nodwyd bod trosglwyddo addysgu o'r tu mewn i'r awyr agored yn her i rai athrawon yn eu hymarfer, gyda dysgu yn yr awyr agored yn cael

ei weld fel pwysau ychwanegol i ymrwymiadau gwaith presennol, yn hytrach na chyfle i fynd â dysgu presennol y tu allan. Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd â chanfyddiad yr astudiaeth gan Maynard *et al.* (2011) a'r syniad bod y 'gwaith go iawn' hwnnw i'w weld yn digwydd mewn ystafelloedd dosbarth. Awgrymodd yr astudiaeth fod angen cefnogaeth gan dimau arweinyddiaeth ysgolion a llywodraethwyr i ymgorffori dysgu yn yr awyr agored yn y cwricwlwm yn fwyaf effeithiol. Dangoswyd hefyd bod rhoi tystiolaeth o waith yn yr awyr agored yn rhwystr ac felly mae angen dulliau creadigol ac arloesol, ynghyd â hyfforddiant priodol i athrawon (Maynard a Chicken, 2010). Tynnodd athrawon sylw at effaith gadarnhaol dysgu yn yr awyr agored ar ymddygiad plant, ymgysylltu â chyfoedion a sgiliau cymdeithasol, yn enwedig o ran ymgysylltiad disgyblion ag ADY neu anawsterau ymddygiad.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen yn 2022, fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru, sy'n amlinellu cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae'r cwricwlwm newydd, nas cynhelir ar gyfer lleoliadau meithrin yng Nghymru yn gwneud achos clir dros rôl chwarae yn yr awyr agored a dysgu yn yr awyr agored fel cyfleoedd pwysig a all gefnogi darpariaeth, cyflwyno'r cwricwlwm, a rhoi cyfle i blant ddatblygu'n gyfannol. Mae'n awgrymu bod archwilio'r amgylchedd yn sbardun allweddol i ddatblygiad a thrwy hyn, mae plant yn dechrau datblygu ymdeimlad o berthyn, neu 'gynefin', ac yn gwerthfawrogi'r byd o'u cwmpas. Mae'r cwricwlwm nas cynhelir ar gyfer lleoliadau meithrin yng Nghymru yn nodi, yn yr oedran ifanc iawn hwn, fod angen i blant brofi 'syndod a rhyfeddod' er mwyn tanio eu chwilfrydedd am y byd, a bod cael amgylchedd dyfeisgar a dilys sydd wedi'i gynllunio'n dda dan do ac yn yr awyr agored yn hollbwysig i sgaffaldio dysgu plant (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae chwarae yn yr awyr agored yn cael ei nodi fel addysgeg yn y ddogfen hon, ac awgrymir bod dysgu yn yr awyr agored yn gwella sgiliau ac yn cefnogi datblygu hyder. Mae'r awyr agored yn darparu cyfleoedd dilys ar gyfer dysgu, synhwyrau ysgogol, sy'n galluogi i ddysgu gael ei gadw am gyfnod hwy (Clarke, 2006).

Mae cyfiawnhad pwysig dros ddefnyddio'r ystafell ddosbarth awyr agored yn gysylltiedig â phwysigrwydd cysylltu plant â'u hamgylchedd naturiol, sy'n adeiladu empathi at natur a'u heffaith ar yr amgylchedd, gan ganiatáu i blant ddatblygu 'ymdeimlad o le'. Er y nodir bod plant yn gallu datblygu sgiliau mwy amlwg fel ymwybyddiaeth gorfforol megis cydbwysedd a chryfder yn yr awyr agored, mae cysylltiadau pwysig yn cael eu gwneud â sgiliau llai amlwg megis hyder, gwytnwch, asesu risg a datblygiad sgematig (Boulton a Thomas, 2022) sy'n sgiliau gydol oes. Felly, mae arwydd cryf bod dysgu yn yr awyr agored, fel addysgeg ar y cam hwn o ddatblygiad y blynyddoedd cynnar, yn dod â manteision cyfannol sylweddol i blant. Mae'r casgliadau hyn yn codi cwestiynau ynghylch pam mae cryfder y neges hon yn dechrau lleihau wrth i gontinwwm y cwricwlwm fynd rhagddo, wrth i blant fynd yn hŷn, a pham yr ymddengys fod ei werth yn dirywio ac yn cael ei weld fel 'atodiad' i'r cwricwlwm yn hytrach na chael ei ymgorffori yn y cwricwlwm fel dull addysgu.

### 2.2.2. Ysgolion Uwchradd

Mae astudiaethau ar y cysyniad o ddysgu yn yr awyr agored a sut mae'n cefnogi iechyd a lles plant a phobl ifanc yn aml yn canolbwyntio ar sefydliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd. Mae llenyddiaeth sy'n ymwneud â darpariaeth dysgu yn yr awyr agored mewn ysgolion uwchradd yn gyfyngedig. Fodd bynnag, nod astudiaeth gan Williams a Scott (2019) oedd deall pam nad yw athrawon uwchradd yn defnyddio dysgu yn yr awyr

agored yn eu hymarfer addysgegol a manteision ac anfanteision defnyddio dysgu yn yr awyr agored. Ceisiodd yr astudiaeth wahaniaethu rhwng ffactorau sy'n dylanwadu ar safbwyntiau athrawon am ddysgu yn yr awyr agored ac archwiliodd a yw dysgu yn yr awyr agored yn cael mwy o effaith ar ddatblygiad plentyn na dysgu dan do. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys sampl fach o un ysgol uwchradd o 7 athro a lenwodd holiadur profiad athrawon Fägerstrom (2014) sy'n archwilio potensial addysgol dysgu yn yr awyr agored mewn ysgolion uwchradd. Roedd yr holiadur yn mesur ymatebion ar agweddau cymdeithasol, yr amgylchedd cefnogol, y berthynas dan arweiniad myfyrwyr / athrawon, cydweithrediad rhwng athrawon, a chanfyddiadau.

Mae'r themâu a ddeilliodd o'r astudiaeth gan Williams a Scott (2019) yn cynnwys: asesiad risg, tywydd, llwyth/amser gwaith, hyblygrwydd, ymddygiad, perthynas, a diffiniad. Mae canfyddiadau'r astudiaeth yn dangos bod potensial addysgol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored ar dir yr ysgol heb fod angen teithio. Nododd yr athrawon y cyfle am brofiadau archwiliadol, dan arweiniad myfyrwyr y tu allan, ond awgrymwyd bod dysgu yn yr awyr agored yn cael ei ddefnyddio fwy yn CA1 nag yn CA2. Yn ogystal, codwyd pryderon ynghylch sut i asesu dysgu a chanfod yr amser a diffyg hyblygrwydd yn y cwricwlwm. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad y gall ffactorau addysg, datblygiad personol a rhwyddineb effeithio ar ddefnydd athrawon o gyfleusterau dysgu yn yr awyr agored, a dylai llunwyr polisi ac ysgolion ystyried y rhain. Roedd athrawon yn aml yn derbyn negeseuon anghyson am ddysgu yn yr awyr agored yn yr ysgol, felly roeddent yn ansicr o'i ddiffiniad, a effeithiodd ar eu dealltwriaeth o'r hyn y dylent fod yn ei addysgu pan fyddant yn yr awyr agored, ynghyd â strwythur gwersi. Roedd athrawon yn cydnabod bod gwahaniaethau rhwng dysgu dan do ac yn yr awyr agored, ac y gall y ddau effeithio ar ymddygiad, ymgysylltiad a hwyliau myfyrwyr mewn ffordd gadarnhaol a negyddol. Mae'r astudiaeth yn awgrymu y byddai athrawon yn elwa o ddatblygiad proffesiynol wrth ddefnyddio dysgu yn yr awyr agored.

### 2.2.3. Astudiaethau Rhyngwladol

Adolygwyd y cysyniad o Udeskole (dull seiliedig ar y cwricwlwm lle mae dysgu yn digwydd yn yr awyr agored mewn lleoliadau naturiol a diwylliannol) mewn astudiaeth gan Waite, Bolling, a Bentsen (2016). Gan ddefnyddio model cysyniadol sy'n canolbwyntio ar ddibenion, nodau, cynnwys, addysgeg, canlyniadau, a rhwystrau, adolygodd a dehonglodd yr ymchwilwyr lenyddiaeth ar ddau fath o ddysgu yn yr awyr agored: Ysgolion Coedwig yn Lloegr ac Udeskole yn Nenmarc. Buont yn archwilio egwyddorion addysgegol o fewn fframwaith dadansoddol cymharol ac yn ystyried sut mae addysgeg a fabwysiadwyd yn adlewyrchu'r diwylliant y maent wedi'u gwreiddio ynddo. Er gwaethaf gwahanol gyd-destunau addysgol a diwylliannol cenedlaethol, mae Ysgolion Coedwig Lloegr ac Udeskole Denmarc yn rhannu nifer o bethau cyffredin o fewn traddodiad addysgegol naturiolaidd / blaengar er bod gwahaniaethau i'w gweld yn y graddau o integreiddio o fewn systemau addysgol cenedlaethol. Mae galwadau byd-eang am fwy o gysylltiad â natur, ac aliniad diweddar systemau ysgolion sy'n cael eu gyrru gan ganlyniadau, yn y ddwy wlad yn dylanwadu ar eu hegwyddorion sylfaenol, gan arwain efallai at fwy o gydgyfeirio yn y dyfodol. Mae'r awduron yn dadlau bod angen rhoi sylw manwl i egwyddorion addysgeg er mwyn sicrhau gwell aliniad rhwng pwrpas ac ymarfer er mwyn sicrhau canlyniadau penodol a gallu cymharu gwahanol fathau.

Mae’r syniad o addysgu yn yr awyr agored wedi’i seilio ar y cwricwlwm yn cael ei archwilio mewn astudiaeth Sgandinafaidd gan Barford a Daugbjerg (2018). Mae'r astudiaeth yn archwilio sut mae Udeksole yn ysgogi ac yn herio athrawon, a sut mae'n effeithio ar berthynas yr athro/athrawes gyda disgyblion a'u dysgu. Mae Udeskole yn cynnig dewis o ddulliau dysgu ac fe’i hystyrir yn ddull cyfannol, yn yr ysgol, i gefnogi dysgu, cynyddu ymarfer corff, perthynas gymdeithasol, ac iechyd meddwl yn Nenmarc. Mae 19.4% o ysgolion (cyhoeddus, preifat ac annibynnol) yn ei ymarfer. Ymhlith y rhwystrau i gyflawni nodau Udeskole mae polisi, pobl, lle ac adnoddau. Nid yw’r rhwystrau hyn yn annhebyg i’r rhwystrau a nodir yn y llenyddiaeth o astudiaethau yn y Deyrnas Unedig (Marchant *et al.,* 2019; Williams a Scott, 2019). Yn gyffredinol, canfu’r astudiaeth gan Barford a Daugbjerg (2018), fod gan Udeskole botensial o ran sgiliau academaidd a sgiliau bywyd, gan ddysgu sgiliau bywyd dydd i ddydd pwysig i fyfyrwyr ar ben y sgiliau academaidd. Roedd disgyblion ac athrawon yn rhannu mwy o gydweithio mewn tasgau awyr agored, a gwelwyd hyn hefyd yn fuddiol i berthynas yn yr ystafell ddosbarth. Nid oedd ofn a phryder am fod yn yr awyr agored yn cael ei ystyried yn bryder teilwng, ac roedd dysgu yn yr awyr agored yn cael ei ystyried yn fuddsoddiad i'r plentyn.

Mae'r llenyddiaeth ar sut yr archwilir dysgu yn yr awyr agored mewn rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yn gyfyngedig. Cynhaliodd Khwaengmek, Pitiportapin, Pimthong a Bukatuny (2021) astudiaeth yng Ngwlad Thai, a archwiliodd ganfyddiadau athrawon dan hyfforddiant (mewn addysg plentyndod cynnar) o ddefnyddio dysgu yn yr awyr agored i gefnogi addysg STEM. Ymatebodd sampl fach o athrawon (n=29) i holiadur am eu profiadau. Daw’r astudiaeth i’r casgliad bod y cyfranogwyr wedi gallu dangos profiadau gwahanol wrth ddefnyddio byd natur i gefnogi dysgu STEM, trwy ddysgu seiliedig ar broject, dysgu seiliedig ar le ac arbrawf gwyddoniaeth. Mae’r astudiaeth hefyd yn dangos y gallai’r athrawon dan hyfforddiant weld sut y gallai dysgu yn yr awyr agored gefnogi dysgu ac addysgu pynciau STEM, a bod plant yn dysgu yn yr amgylchedd awyr agored wrth gael hwyl.

Archwiliodd astudiaeth arall, o Dwrci, brofiadau darpar athrawon gyda’r nod o geisio datgelu ystyr gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored a brofwyd gan grŵp o ddarpar athrawon astudiaethau cymdeithasol (Bozkurt, 2021). Roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar brofiadau'r darpar athrawon gan ddefnyddio safbwynt adeiladol cymdeithasol. Mae grŵp astudio'r ymchwil ansoddol hwn yn cynnwys 16 o ddarpar athrawon astudiaethau cymdeithasol a gafodd eu cyfweld a'u harsylwi. Datgelodd canfyddiadau o’r astudiaeth gan Bozkurt (2021) fod hyd yn oed dim ond mynd y tu allan i’r ystafell ddosbarth â photensial addysgol, a bod dysgu yn yr awyr agored yn hwyluso dysgu trwy brofiad a chymryd rhan, ac yn creu amgylchedd mwy cynhwysol. Yn ogystal, canfuwyd y gallai dysgu yn yr awyr agored ddatblygu sgiliau megis datrys problemau, meddwl yn feirniadol, canfyddiad o ofod, newid a pharhad, arsylwi, cyfathrebu, a chydweithio, sydd i gyd yn hanfodol wrth addysgu astudiaethau cymdeithasol. Mae’r astudiaeth yn dadlau y dylai pob rhaglen addysg athrawon gynnwys amgylcheddau dysgu sy’n modelu disgwyliadau addysgegol darpar athrawon ac am y rheswm hwn, dylid cefnogi dysgu yn yr awyr agored fel rhan annatod o gwricwlwm cyfan yr ysgol.

Mae llenyddiaeth sy’n archwilio’r defnydd o ddysgu yn yr awyr agored i gefnogi’r cwricwlwm yn cael ei archwilio gan nifer o ymchwilwyr (Dolan, 2015; MacQuarrie, 2016; Passy, Bentsen, Gray a Ho, 2019). Er bod dysgu yn yr awyr agored yn aml yn cael ei gynnwys mewn dogfennau polisi neu gwricwlaidd ledled y Deyrnas Unedig (MacQuarrie,

2016), ychydig o dystiolaeth sydd i awgrymu bod athrawon wedi manteisio ar y cyfle i ddysgu am y cwricwlwm yn yr awyr agored. Nid yw dysgu yn yr awyr agored bob amser yn cael ei ystyried yn ffafriol ac nid yw cysylltiadau rhwng dysgu yn yr awyr agored a'r cwricwlwm yn cael eu hystyried yn aml (Dolan, 2015). Mae MacQuarrie (2016) yn awgrymu bod llawer o dystiolaeth ac ymchwil sy'n cefnogi sut y gellir gwella dysgu yn yr ystafell ddosbarth, gydag ymchwil gyfyngedig i gefnogi sut y gellir gwella dysgu yn yr awyr agored, gydag un athro yn nodi 'sometimes the links with curricular work seemed quite tedious' (t.344). O ganlyniad, mae MacQuarrie (2016) yn dadlau y dylai dysgu yn yr awyr agored fod yn rhan o fframwaith addysgu a dysgu ehangach. Mae'r astudiaethau hyn yn dadlau bod angen newid polisi, wedi'i ategu gan newid diwylliant, os yw dysgu yn yr awyr agored am gael ei ymgorffori'n wirioneddol yn y cwricwlwm (Passy, *et al.,* 2019). Gall y newid hwn mewn meddwl gynnig ffyrdd newydd o ddysgu i blant a phobl ifanc gan cefnogi eu hiechyd a'u lles yr un pryd. Gall mynd â disgyblion i'r awyr agored greu gofod corfforol a meddyliol i ffwrdd o bwysau'r ystafell ddosbarth draddodiadol.

## 2.3. Casgliadau

Mae gan ysgolion ran hanfodol i'w chwarae wrth ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc brofi amser mewn amgylchedd naturiol (Natural England, 2012). Mae heriau cyflawni hyn yn cynnwys risg damweiniau, cost cyflwyno a phwysau o gyflwyno'r cwricwlwm, hyder athrawon a'u hunan-effeithiolrwydd, ynghyd â mynediad at hyfforddiant a DPP a defnydd o'r amgylchedd awyr agored ar dir yr ysgol a thu hwnt. Ystyriwyd bod y manteision yn cynnwys helpu i godi safonau addysg, perfformiad gwell myfyrwyr mewn pynciau fel Mathemateg, Gwyddoniaeth, Darllen ac Astudiaethau Cymdeithasol, a theimlwyd bod dysgu yn yr awyr agored yn helpu i gyfoethogi pynciau eraill a addysgir yn yr ystafell ddosbarth. Yn ogystal, gellir gweld bod dysgu yn yr awyr agored yn cynyddu creadigrwydd ac yn cefnogi lles meddwl cadarnhaol ac yn darparu mwy o ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a gallai helpu cydlyniant cymunedol. Gellid gweld mai disgyblion dan anfantais sydd â'r mwyaf i'w ennill felly gall y diffyg hwn o fannau gwyrdd/amgylchedd awyr agored effeithio'n fwy dramatig ar eu lles (RSPB, 2012). Daeth Natural England (2012) i'r casgliad bod angen darparu DPP o safon i athrawon er mwyn gwella hyder ac ansawdd gwersi. Er bod manteision dysgu yn yr awyr agored yn glir, nid yw'n ymddangos bod tystiolaeth gymhellol ynghylch pam mae rhai ysgolion yn defnyddio dysgu yn yr awyr agored ac eraill ddim.

Mae'r llenyddiaeth yn dangos bod dysgu yn yr awyr agored o fudd sylweddol i staff a disgyblion a gall wella iechyd, lles a chanlyniadau addysgol plant a phobl ifanc (Gilchrist ac Emmerson, 2016; Barford a Daugbjerg, 2018; Marchant *et al.,* 2019, French *et al.* 2021). Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth hefyd yn nodi tystiolaeth o rwystrau i ddefnyddio dysgu yn yr awyr agored. Mae rhai athrawon yn amgyffred bod 'gwaith go iawn' i'w weld yn digwydd mewn ystafelloedd dosbarth (Maynard et al., 2011) a bod rhwystrau eraill a ddisgrifiwyd yn aml yn ymwneud â pholisi, pobl, lle ac adnoddau (Barford a Daugbjerg, 2018; Marchant et al., 2019; Williams a Scott, 2019). Er bod tystiolaeth bod athrawon yn gwerthfawrogi'r defnydd o ddysgu yn yr awyr agored, mae astudiaethau hefyd yn adrodd am y diffyg hyder, cyfyngiadau'r cwricwlwm a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r awyr agored fel rhwystrau canfyddedig (Davies a Hamilton, 2018).

Mae themâu allweddol y gellir eu tynnu o'r llenyddiaeth hefyd yn cynnwys yr angen am hyfforddiant a datblygiad pellach i athrawon, a fydd yn gwella eu hyder yn ei ddefnydd fel

dull addysgu o fewn y cwricwlwm. Mae angen cefnogaeth gan uwch dimau arweinyddiaeth i annog newid diwylliant drwy'r ysgol gyfan ynghylch defnyddio dysgu yn yr awyr agored. Yn bwysicach fyth, mae angen i arolygiaethau addysg roi gwerth uwch ar ddefnyddio'r awyr agored i gefnogi dysgu ac addysgu (Bilton a Waters, 2017).

Mae'r adolygiad hwn yn pwysleisio bod dulliau o ddysgu yn yr awyr agored mewn gwahanol leoliadau yn amrywio'n sylweddol. Mae'n ymddangos bod gwahanol gyfleoedd a dulliau gweithredu rhwng lleoliadau a sylfaen dystiolaeth gryfach yn y lleoliadau blynyddoedd cynnar/cynradd. Dylai datblygiad Cwricwlwm i Gymru (LlC, 2021) gydnabod hyn a rhoi'r cyfle i ymgorffori manteision dysgu yn yr awyr agored ar draws yr ystod oedran.

# 3. Y Fethodoleg

## 3.1 Cynllun Ymchwil

Seiliwyd y cynllun ymchwil ar gyfer y project hwn ar yr offeryn dylunio a chasglu data a ddefnyddiwyd ar gyfer *Teaching, learning, and play in the outdoors: a survey of school and pre-school provision in Scotland* (Mannion, Mattu a Wilson, 2015). Defnyddiodd ddull sydd wedi profi i fod yn effeithiol ac yn ddibynadwy wrth ymchwilio i ddarpariaeth dysgu yn yr awyr agored mewn ysgolion yn yr Alban. Cafodd yr astudiaeth yn yr Alban, a ddechreuodd yn 2006, ei gweinyddu'n hydredol, a rhoddodd y canlyniadau set ddata sylweddol i gefnogi ymhellach ymarfer a darpariaeth dysgu yn yr awyr agored. Mae gan yr astudiaeth a ddogfennir yn yr adroddiad hwn y potensial i sefydlu gaelodlin ar gyfer data o'r fath yng Nghymru.

Roedd y project gwreiddiol yn canolbwyntio ar ddarparu dealltwriaeth o natur newidiol cwmpas ac ystod profiadau awyr agored ffurfiol mewn ysgolion a sefydliadau cyn-ysgol trwy ofyn i ysgolion hunan-adrodd am eu gweithgareddau (Mannion, Mattu a Wilson, 2015). Mae ein hastudiaeth wedi canolbwyntio ar 3 chwestiwn ymchwil:

- **CY1** Beth yw'r cyfleoedd a gynigir gan brofiadau addysgol yn yr awyr agored ar gyfer gwahanol fathau o ddysgu, mewn gwahanol feysydd pwnc, ffocws disgyblaethol a rhyngddisgyblaethol ar gyfer dysgu?
- **CY2** Sut mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu yn yr awyr agored yn cael ei dosbarthu?
- **CY3** Beth yw effeithiau mynd allan i'r awyr agored ar ansawdd y dysgu ar gyfer gwahanol fathau o leoliad a darpariaeth?

Mae ein project ymchwil wedi defnyddio dull gyda'r athro yn ganolog i'r gwaith o gasglu data. Casglwyd data trwy arolwg ar-lein a ddadansoddwyd yn feintiol ac yn ansoddol. Defnyddiwyd sampl cyfleus, gan ddefnyddio cysylltiadau AGA y tri Sefydliad Addysg Uwch dan sylw a oedd yn bod eisoes. Cyfrifwyd maint sampl fel 91 ysgol ar gyfwng hyder 10% gyda lefel hyder o 90%, a chafodd hyn ei dorri i lawr yn gymesur â'r mathau o ysgolion a restrwyd (uwchradd, arbennig, cynradd, ac ati). Roedd yr ystod o ysgolion mewn partneriaethau AGA a oedd yn ymwneud ag ardal ddaearyddol yn cynrychioli seiliau iaith yr ysgolion yn yr ardaloedd hynny (ac, felly, darparwyd yr holl ddeunyddiau yn ddwyieithog). Roedd y tîm hefyd yn cynnwys nifer o siaradwyr Cymraeg gan ganiatáu dwyieithrwydd llawn yn y broses casglu data. Cafodd yr holl ysgolion a gymerodd ran eu mapio yn erbyn Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) a'r Dosbarthiad Gwledig/Trefol (2011) i fonitro cynrychioldeb o gymharu â demograffeg genedlaethol. Rhagwelwyd y byddai gan yr arolwg y gallu i gael ei ehangu ar gyfer astudiaethau posibl yn y dyfodol yn hydredol ac o ran cyfranogiad (fel sydd wedi'i wneud yn yr Alban dros dri chylch ers 2006).

Cafwyd cymeradwyaeth foesegol drwy bwyllgor moeseg Prifysgol Bangor ym mis Tachwedd 2021, a rhannwyd llythyr o gydsyniad moesegol â phartneriaid SAU eraill, a gofnododd y gymeradwyaeth hefyd gyda'u pwyllgor moeseg priodol eu hunain. Mae'r daflen wybodaeth a'r ffurflen gydsynio ar gyfer cyfranogwyr a oedd yn rhan o'r broses foesegol i'w gweld yn Atodiad 1.

## 3.2 Addasu'r dull ymchwil

Y cam cyntaf i dîm y project oedd archwilio'r cynllun ymchwil gwreiddiol a strategaeth casglu data a gynhaliwyd yn astudiaeth yr Alban. Datblygodd trafodaethau grŵp ddull mwy priodol, set o gwestiynau, a chyfeiriadau cyd-destunol ar gyfer y cyd-destun Cymreig. Gwnaed mân addasiadau i gwestiynau'r arolwg i adlewyrchu cwricwlwm Cymru a chyfleoedd dysgu yn yr awyr agored yng Nghymru. Mae'r offeryn arolwg gwreiddiol a'r un a addaswyd i'w gweld yn Atodiad 2 a 3.

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae cynllun ymchwil y project hwn yn cymharu â'r astudiaeth wreiddiol.

| Camau Cynllunio Ymchwil | Addysgu, dysgu a chwarae yn yr awyr agored: arolwg o ddarpariaeth ysgol a chyn-ysgol yn yr Alban | Addysgu a dysgu yn yr awyr agored: cyflwr presennol dysgu yn yr awyr agored mewn ysgolion yng Nghymru |
|---|---|---|
| **Cynllunio cwestiynau'r arolwg** | Roedd ffocws cwestiynau'r arolwg ar ddysgu yn yr awyr agored ar draws y cwricwlwm a themâu rhyngddisgyblaethol. Nid oedd ymarfer corff a gweithgaredd amser egwyl wedi'u cynnwys | Wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r cyd-destun Cymreig o ran y cwricwlwm, lleoliadau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â Dysgu yn yr Awyr Agored |
| **Paratoi ysgolion** | Darparwyd canllawiau ar sut i gymryd rhan yn yr arolwg. Dewis cymryd rhan ai peidio. Sicrhau nad oes modd adnabod y cyfranogwyr | Taflen wybodaeth a ffurflen gydsynio gyda manylion cyswllt wedi eu rhoi i bob ysgol cyn cymryd rhan yn y project. Dewis cymryd rhan ai peidio. Sicrhau nad oes modd adnabod y cyfranogwyr |
| **Sampl** | Cynhyrchwyd tri sampl ar hap ar gyfer cyn-ysgol, cynradd ac uwchradd gan ddefnyddio maint ysgol a lleoliad trefol-gwledig ysgolion fel meini prawf | Cymerir y sampl o ysgolion partneriaeth sy'n gysylltiedig â phob SAU a chysylltiadau personol |
| **Casglu Data** | Holiadur papur<br><br>Offeryn holiadur hunan-adrodd wedi'i lenwi gan athrawon<br><br>Cofnodi gweithgareddau awyr agored ffurfiol yn wythnosol sy'n nodi gweithgareddau ar dir yr ysgol, ardaloedd lleol, a phreswyl. Arweinir gan athrawon neu staff eraill | Holiadur ar-lein<br><br>Offeryn holiadur hunan-adrodd wedi'i lenwi gan athrawon<br><br>Cofnodi gweithgareddau awyr agored ffurfiol yn wythnosol sy'n nodi gweithgareddau ar dir yr ysgol, ardaloedd lleol, a phreswyl. Nodi rolau'r oedolion a oedd yn cefnogi arwain sesiyna |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynhaliwyd arolygon ym mis Mai a mis Mehefin | Cynhaliwyd arolwg o ddiwedd Chwefror hyd at ddechrau Ebrill oherwydd cyfyngiadau amseru'r project. (Rhagweld yr effaith ar ystod a nifer y gweithgareddau) |

*Tabl 1*

## 3.3 Dull samplu

Cyfrifwyd yr awgrymiadau maint sampl ar gyfer project dysgu yn yr awyr agored CEN (Rhwydwaith Addysg Gymunedol) gan ddefnyddio cyfrifiwr maint sampl ar-lein Qualtrics. Ar gyfer cyfwng hyder 10%, ar lefel hyder 95%.

| **Dosbarthiad ysgol** | **Poblogaeth** | **% o gyfanswm y boblogaeth (i 1 ffigur ystyrlon)** | **Mae angen i faint y sampl gyd-fynd â chanran y boblogaeth gyfan** |
|---|---|---|---|
| Pob ysgol | 1553 | 100 | 91 |
| Cynradd | 1219 | 78 | 71 |
| Uwchradd | 182 | 12 | 11 |
| Annibynnol | 80 | 5 | 5 |
| Arbennig/ADY | 40 | 3 | 3 |
| Meithrin | 9 | 0.6 | 1 |
| Canol | 23 | 2 | 2 |

*Tabl 2*

Mae Tabl 3 yn rhoi crynodeb o'r ysgolion y cysylltwyd â nhw i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon:

| **Dosbarthiad yr Ysgol** | **Nifer y cysylltwyd â nhw** | **Canradd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru** | **Gwledig/Trefol** |
|---|---|---|---|
| Meithrin | 2 | 1 = 30-50% mwyaf difreintiedig<br>1 = 50% lleiaf difreintiedig | 1 = gwledig<br>1 = trefol |
| Cynradd (gan gynnwys cyfrwng Cymraeg) | 24 | 2 = 10% mwyaf difreintiedig<br>2 = 10-20% mwyaf difreintiedig<br>1 = 20-30% mwyaf difreintiedig<br>5 = 30-50% mwyaf difreintiedig<br>14 = 50% lleiaf difreintiedig | 8 = gwledig<br>16 = trefol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Uwchradd (gan gynnwys cyfrwng Cymraeg) | 14 | 2 = 10% mwyaf difreintiedig<br>1 = 10-20% mwyaf difreintiedig<br>1 = 20-30% mwyaf difreintiedig<br>2 = 30-50% mwyaf difreintiedig<br>7 = 50% lleiaf difreintiedig | 4 = Gwledig 10 = Trefol |
| Arbennig | 7 | 5 = 50% lleiaf difreintiedig<br>2 = 10-20% mwyaf difreintiedig | 1 = gwledig<br>6 = trefol |
| Annibynnol | 2 | 1 = 30-50% mwyaf difreintiedig<br>1 = 50% lleiaf difreintiedig | 1 = gwledig<br>1 = trefol |
| Coedwig | 1 | 50% lleiaf difreintiedig | Trefol |

*Tabl 3*

## 3.4 Casglu data a gwerthuso offeryn yr arolwg

Anfonwyd e-bost at yr holl ysgolion a ddewiswyd i gysylltu â nhw â throsolwg byr o'r astudiaeth, taflenni gwybodaeth i gyfranogwyr, ffurflenni cydsynio a dolen i'r holiadur ar-lein, ac anfonwyd pob un ohonynt yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gofynnwyd i ysgolion gefnogi'r astudiaeth drwy lenwi'r holiadur ar-lein byr bob wythnos am gyfnod o wyth wythnos.


Roedd dau bwrpas i'r gwerthusiad: roedd y tîm am ystyried y defnydd o offeryn yr arolwg wedi'i addasu yn y cyd-destun hwn, ac fel peilot i'w ddefnyddio gydag ysgolion yng Nghymru gyda'r posibilrwydd o ehangu'r arolwg ymhellach.

Trafodir canlyniadau'r arolwg yn yr adran Canfyddiadau.

# 4. Canfyddiadau

## 4.1 Ymatebion Ysgolion


Cofnododd yr arolwg ar-lein 12 o ymatebion wedi'u cwblhau dros gyfnod yr 8 wythnos. O'r 12 hyn, cwblhaodd 1 ysgol yr holiadur bedair gwaith ac 8 ysgol unwaith. Cynigiwyd yr arolwg yn ddwyieithog, fodd bynnag, ni chwblhawyd unrhyw holiaduron Cymraeg. Mae hyn yn awgrymu bod 9 ysgol wedi cymryd rhan yn yr arolwg yn gyffredinol (ffigur 1). O safbwynt casglu data, gan ddefnyddio cyfrifwr maint sampl ar-lein Qualtrics, cydnabyddir bod y sampl data yn llawer is na'r cyfwng hyder 10%, ar lefel hyder 95%. Felly, mae'n rhaid bod yn ofalus wrth ddadansoddi'r data. Fodd bynnag, mae'r nifer fach o ymatebwyr yn cynnig peilot a chipolwg defnyddiol o gyflwr presennol dysgu yn yr awyr agored yng Nghymru, er gwaethaf maint y sampl.




*Ffigur 1.*

Roedd dwy ran o dair o'r ymatebion ysgol gan ysgolion yn y 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig (MALIC, 2019) ac un rhan o dair o'r 30 – 50% mwyaf difreintiedig (ffigur 2). Ni chafwyd unrhyw ymatebion o'r ardaloedd canlynol:

- 10% mwyaf difreintiedig
- 10 – 20% mwyaf difreintiedig
- 20 – 30% mwyaf difreintiedig



*Ffigur 2.*

Roedd 7 ysgol o leoliad trefol/tref gyda 2 o dref wledig ac ar y cyrion (Dosbarthiad Trefol Gwledig, 2011).

## 4.2 Sesiynau a Gofnodwyd

Cofnododd 2 ysgol ar wahân sesiynau ôl-weithredol ar ddysgu yn yr awyr agored. Un cofnod o fis Medi 2021 a'r ail o fis Hydref 2021. Cofnododd y 7 ysgol arall ddata rhwng Mawrth ac Ebrill 2022.

Roedd y grwpiau blwyddyn a gymerodd ran yn amrywio o ddosbarth Derbyn i Flwyddyn 14. Mae Tabl 4 yn dangos mai dim ond un ysgol a gwblhaodd yr holiadur 4 gwaith, gan gofnodi ymatebion ar 07/03/22, 14/03/22, 28/03/22 a 04/03/22.


| Ystod Oedran | Ymateb i'r Arolwg a Gofnodwyd |
|---|---|
| Dosbarth derbyn | 1 |
| Blwyddyn 1 | 1 |
| Blwyddyn 2 | 1 |
| Blwyddyn 4 | 4 |
| Blwyddyn 6 | 1 |
| Blwyddyn 7 | 1 |
| Blwyddyn 8 | 1 |
| Blwyddyn 12 | 1 |
| Blwyddyn 14* | 1 |

*Tabl 4*

Roedd amseroedd sesiynau unigol yn amrywio o 30 munud i 6.5 awr. Dengys y data mai’r ddwy ysgol annibynnol a gofnododd y ddwy sesiwn hiraf, sef 6 awr a 6.5 awr yn y drefn honno. Ysgol Gynradd oedd y sesiwn fyrraf a gofnodwyd.

Roedd meintiau dosbarthiadau yn amrywio o'r lleiaf (n=4) i'r mwyaf (n=29). Cofnodwyd y maint dosbarth lleiaf mewn ysgol arbennig, a fyddai'n cyfrif am y nifer fach o ddisgyblion. Cofnodwyd y maint dosbarth mwyaf mewn ysgol gynradd.

Roedd yr oedolion ym mhob sesiwn yn amrywio o 1 – 4 mewn nifer. Ynghyd â'r athro a'r cynorthwyydd addysgu, roedd yr oedolion 'eraill' a gofnodwyd mewn sesiynau yn cynnwys hyfforddwr awyr agored, athro dan hyfforddiant neu athro cyswllt (ffigur 3).




*Ffigur 3*

## 4.3 Ffocws y Sesiynau

Roedd cwestiwn yr arolwg a ofynnodd am ffocws y sesiwn yn rhoi 13 opsiwn ac 'arall' rhag ofn y byddai ysgol yn dymuno cofnodi rhywbeth ychwanegol. Gofynnodd yr opsiynau i'r ysgol gofnodi a oedd y ffocws wedi'i gynllunio ac a oedd wedi digwydd. Mae Tabl 5 isod yn dangos yr ymatebion a gofnodwyd.

| Rhif 7 - Ffocws y sesiwn | Wedi'i gynllunio | Wedi digwydd mewn gwirionedd | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd |
|---|---|---|---|
| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | 10 | 5 | 5 |
| Gwaith tîm | 10 | 7 | 7 |
| Natur/ymdeimlad o le | 5 | 4 | 4 |
| Gweithgareddau / sgiliau ymarferol | 8 | 5 | 5 |
| Datblygiad unigol / personol | 4 | 4 | 4 |
| Chwarae / mwynhad / hamdden | 7 | 8 | 7 |
| Lles personol / cymdeithasol | 4 | 7 | 4 |
| Gwarchod natur / treftadaeth ddiwylliannol | 2 | 1 | 1 |
| Cymdeithas / diwylliant cymdeithasol | 2 | 0 | 0 |
| Astudio / dysgu am Gymru | 2 | 0 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dylanwadu ar newid | 1 | 1 | 1 |
| Gweithgareddau antur | 1 | 1 | 1 |
| Gwaith creadigol | 1 | 1 | 1 |
| Gwaith Maes | 0 | 0 | 0 |

*Tabl 5*

Mae’n werth nodi bod y cyfranogwyr yn yr adrannau chwarae / mwynhad / hamdden a phersonol / lles, wedi cofnodi gweithgareddau ychwanegol a gynhaliwyd yn canolbwyntio ar y meysydd penodol hyn nag yr oedd wedi cael eu cynllunio’n wreiddiol.

## 4.4 Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Pan ofynnwyd iddynt am y meysydd cwricwlwm yr ymdriniwyd â hwy drwy Feysydd Dysgu Cymru, cofnododd y cyfranogwyr y canlynol.

| **Rhif 8 - Meysydd cwricwlwm yr ymdriniwyd â hwy drwy Feysydd Dysgu Cymru** | **Wedi’i gynllunio** | **Wedi digwydd mewn gwirionedd** | **Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd** |
|---|---|---|---|
| Iechyd a Lles | 7 | 5 | 5 |
| Iaith / Llên a Chyfathrebu | 7 | 5 | 5 |
| Mathemateg a Rhifedd | 3 | 2 | 2 |
| Dyniaethau | 3 | 2 | 2 |
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | 3 | 3 | 3 |
| Celfyddydau Mynegiannol | 1 | 2 | 1 |

*Tabl 6*

Yn y Celfyddydau Mynegiannol, er bod un sesiwn wedi’i chynllunio a’i chynnal, nodir bod gweithgaredd ychwanegol yn canolbwyntio ar y Celfyddydau Mynegiannol hefyd wedi’i chofnodi ond heb ei chynllunio.

## 4.5 Cysylltiadau â'r Pedwar Diben

Mae Tabl 7 yn cofnodi nifer y sesiynau a oedd yn gysylltiedig â'r pedwar diben. Mae’n bosibl y gall un sesiwn gysylltu ag un neu fwy o’r pedwar diben.

| **Rhif 9 - Cysylltiadau â'r Pedwar Diben** | **Nifer y sesiynau sy'n gysylltiedig â'r pedwar diben** |
|---|---|
| Dysgwyr galluog ac uchelgeisiol… | 9 |
| Unigolion iach a hyderus | 9 |
| Mentrus, creadigol… | 6 |
| Egwyddorol a gwybodus…. | 3 |

*Tabl 7*

O gymharu â gweithgareddau dan do, dywedodd 8 ysgol fod ymgysylltiad plant â gweithgareddau mewn mannau dysgu awyr agored yn fwy nag arfer, gyda 4 ysgol yn dweud bod ymgysylltiad plant â gweithgareddau dysgu awyr agored yr un fath ag arfer.

## 4.6 Gwobrau/Cynlluniau

Mae Tabl 8 yn cofnodi'r gwahanol wobrau neu gynlluniau y mae ysgolion yn eu defnyddio.

| Gwobrau/cynlluniau | Nifer yr ysgolion |
|---|---|
| Eco-ysgolion | 3 |
| John Muir | 1 |
| Dug Caeredin | 1 |
| Ysgolion iach | 2 |
| Arall | 1 (heb roi disgrifiad) |
| Prince’s Trust | 0 |
| ASDAN | 0 |

*Tabl 8*

## 4.7 Effaith ar Ddysgu

Gofynnwyd i ysgolion a oedd dysgu yn yr awyr agored yn ystod y sesiynau a adroddwyd yn gwella unrhyw rai o'r elfennau a restrir yn nhabl 9 o gymharu â dysgu dan do.

| Effaith | Nifer yr ysgolion |
|---|---|
| Cynnydd | 6 |
| Perthnasedd | 6 |
| Her/mwynhad | 7 |
| Ehangder | 5 |
| Personol/dewis | 8 |
| Cydlyniad | 1 |
| Arall - ymgysylltu ymhlith rhai â gallu is | 1 |

*Tabl 9*

## 4.8 Ysgol yn Cofnodi Pedair Sesiwn Dysgu yn yr Awyr Agored dros y Cyfnod

O'r naw ysgol a gymerodd ran, adroddodd un ysgol am bedair sesiwn dysgu yn yr awyr agored a gynhaliwyd yn ystod cyfnod yr arolwg. Roedd pob sesiwn yn cynnwys athro/athrawes a darpar athro/athrawes. Roedd pob sesiwn yn cynnwys disgyblion blwyddyn 4 a chymysgwyd y dosbarthiadau gyda rhwng 12-14 o fechgyn a 12-16 o ferched. Roedd maint dosbarthiadau yn amrywio o 26-29 o ddisgyblion ac roedd y sesiynau awyr agored yn para am 2 awr, 4 awr, 5 awr a 5 awr a hanner. Mae’r adran hon yn canolbwyntio ar yr un ysgol a adroddodd am sesiynau lluosog o ddysgu yn yr awyr agored.

Amlinellir ffocws y sesiynau a gynhaliwyd yn nhabl 10.

| Ffocws y sesiwn | Sesiwn 1 | Sesiwn 2 | Sesiwn 3 | Sesiwn 4 |
|---|---|---|---|---|
| Lles personol / cymdeithasol | Wedi digwydd ond heb ei gynllunio | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd | | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd |
| Chwarae / mwynhad a hamdden | | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd | |
| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | Wedi'i gynllunio ond heb ddigwydd | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd |
| Gwaith tîm/gweithio gydag eraill/datblygu grwpiau | | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd |
| Gweithgareddau / sgiliau ymarferol | | | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd |
| Chwarae / mwynhad / hamdden | Wedi'i gynllunio ond heb ddigwydd | | | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd |
| Datblygiad unigol / personol | | | | |
| Natur / Cymdeithas-natur / Ymdeimlad o le | | Wedi digwydd ond heb ei gynllunio | | |

*Tabl 10*

Mae Tabl 11 yn nodi'r cysylltiadau cwricwlwm a gynlluniwyd ar gyfer pob un o'r pedair sesiwn a'r rhai a gynhaliwyd o fewn tair sesiwn. Rhoddwyd sylw i les personol a chymdeithasol mewn tair sesiwn. Cynlluniwyd gwaith tîm / gweithio gydag eraill / grwpiau datblygu a rhoddwyd sylw i hynny mewn tair sesiwn. Nid oedd yr un sesiwn yn canolbwyntio ar gymdeithas / diwylliant cymdeithasol, astudio / dysgu am Gymru, Dylanwadu ar newid a gweithgareddau antur.

| Meysydd cwricwlwm yr ymdriniwyd â hwy drwy Feysydd Dysgu Cymru | Sesiwn 1 | Sesiwn 2 | Sesiwn 3 | Sesiwn 4 |
|---|---|---|---|---|
| Iechyd a Lles | Wedi'i gynllunio ond heb ddigwydd | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd |
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd | | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd |
| Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu | | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd |
| Dyniaethau | | | Wedi'i gynllunio ac wedi digwydd | |

*Tabl 11*

Wrth ystyried y cysylltiadau â'r pedwar diben, adroddodd yr ysgol hon fod pob un o'r pedair sesiwn yn canolbwyntio ar ddysgwyr iach, hyderus, tair sesiwn yn canolbwyntio ar ddysgwyr uchelgeisiol, creadigol, dwy sesiwn yn canolbwyntio ar ddysgwyr mentrus, creadigol ac nad oedd unrhyw sesiynau a oedd yn canolbwyntio ar ddinasyddion egwyddorol a gwybodus.

Wrth gymharu'r sesiynau â dysgu dan do, roedd ymgysylltiad plant â gweithgareddau awyr agored yn ystod sesiynau 1 a 2 'tua'r un peth' a 'mwy nag arfer' yn ystod sesiynau 3 a 4.  Dim ond un sesiwn oedd yn canolbwyntio ar y cynllun ysgolion iach.

Wrth edrych ar yr effaith ar ddysgu, o gymharu â dysgu dan do, disgrifiwyd elfennau a gafodd eu gwella fel a ganlyn:

Sesiwn 2 - ehangder a her a mwynhad

Sesiwn 3 - dilyniant, ehangder,

Sesiwn 4 - ehangder, personol/dewis, perthnasedd a her a mwynhad

# 5. Trafodaeth

Mae'r drafodaeth hon yn ailedrych ar nodau ac amcanion ymchwil, methodoleg a chanfyddiadau'r project hwn. Mae'n dwyn ynghyd negeseuon a chasgliadau allweddol ac yn cyflwyno argymhellion a fydd yn llywio ymchwil ac ymarfer yn y dyfodol ym maes dysgu yn yr awyr agored.

Pwrpas yr ymchwil hon oedd ymchwilio i gyflwr presennol dysgu yn yr awyr agored mewn ysgolion yng Nghymru ac archwilio dilysrwydd cynllun astudiaeth a ddefnyddir yn yr Alban yn y cyd-destun Cymreig. Ceisiodd yr ymchwil ystyried y cyfleoedd a gynigir gan brofiadau addysgol yn yr awyr agored ar gyfer gwahanol fathau o ddysgu, mewn gwahanol feysydd pwnc, ffocws disgyblaethol a rhyngddisgyblaethol. Yn ogystal, edrychodd yr ymchwil ar sut mae dysgu yn yr awyr agored yn cael ei ddosbarthu ac effeithiau mynd allan i'r awyr agored ar ansawdd y dysgu ar gyfer gwahanol fathau o leoliadau a darpariaeth. Mae cynllun yr astudiaeth yn seiliedig ar adroddiad *Teaching, learning, and play in the outdoors: a survey of school and pre-school provision in Scotland* (2014), gyda'r ymchwil hon yn ymchwilio'n uniongyrchol i ddarpariaeth Gymraeg. Cafodd cynllun yr astudiaeth ei ddiwygio ychydig ar gyfer cyd-destun Cymru ac fe'i cynhaliwyd ar adeg wahanol o'r flwyddyn oherwydd cyfyngiadau amserlen y project. Mae gwersi pwysig wedi'u dysgu o'r project ynghylch sut i ddatblygu cynllun yr astudiaeth ac ymgysylltu â chyfranogwyr.

Roedd y dadansoddi data yn ymchwilio i'r defnydd o ddysgu yn yr awyr agored mewn ysgolion ledled Cymru. Maint y sampl ar gyfer cyfyngau hyder 10% oedd n = 91, fodd bynnag y nifer a gyflawnwyd oedd n = 9 o gyfanswm yr ysgolion, felly ni all y canfyddiadau hyn fod yn wir i'r cymedr cyfrannol ar draws Cymru; gallant, fodd bynnag, ddarparu dealltwriaeth o'r sampl hwn. Gall hyn gael ei esbonio gan y camsyniad gan rai athrawon bod 'gwaith go iawn' yn cael ei wneud yn yr ystafell dosbarth (Maynard *et al*., 2011), a bod rhwystrau sy'n ymwneud â pholisi, adnoddau, hyder, cyfyngiadau cwricwlwm, a risgiau sy'n gysylltiedig â dysgu yn yr awyr agored yn cyflwyno heriau'n ymwneud ag ymarferoldeb dysgu yn yr awyr agored fel addysgeg gynaliadwy ac effeithiol (Barford a Daugbjerg, 2018; Marchant *et al*., 2019; Williams a Scott, 2019; Davies a Hamilton, 2018).

Targedodd astudiaeth gychwynnol yr Alban gan Mannion, Mattu a Wilson (2015) ysgolion yn ystod misoedd Mai a Mehefin yn 2006 a 2014, fodd bynnag roedd ein hastudiaeth yn targedu ysgolion rhwng Chwefror a Mawrth (8 wythnos). Gall cynnal data mor wahanol yn ystod y tymor arwain at gyfraddau ymateb ac ymatebion sy'n anghyson â'i gilydd. Ailadroddwyd project ymchwil Mannion, Mattu a Wilson (2015) yn ystod misoedd Medi 2021 a Hydref 2021 sy'n cyflwyno hinsawdd wahanol iawn i'r misoedd a ddefnyddiwyd ar gyfer ein casglu data: Chwefror a Mawrth.

Roedd ymatebion ysgolion i'r arolwg yn amrywio (Cynradd n = 4, Uwchradd n = 2, Annibynnol n = 2 ac Arbennig n = 1), ac felly'n cynnig cipolwg ar wahanol leoliadau academaidd. Mae ein hadolygiad llenyddiaeth yn nodi bod dysgu yn yr awyr agored yn gyffredin iawn mewn lleoliadau meithrin, ond ni chawsom unrhyw ymatebion gan ysgolion yn y categori hwn ac felly ni allwn ddadansoddi a chynnwys eu profiadau. Er gwaethaf ymdrechion i gynnwys ysgolion o ardaloedd o amddifadedd, ni wnaeth unrhyw ysgol yn y 10% mwyaf difreintiedig, 10-20% mwyaf difreintiedig, a'r 20-30% mwyaf difreintiedig ymateb i'r arolwg (MALIC, 2019). Mae angen ymchwilio ymhellach i'r cyd-destunau hyn fel yr awgrymwyd gan RSPB (2012) gan y gallai'r disgyblion hyn elwa'n sylweddol o ddysgu

yn yr awyr agored mewn meysydd academaidd a lles, oherwydd diffyg amgylchedd gwyrdd/awyr agored yn eu hardal.

Mae'r gyfradd ymateb isel ar gyfer y project ymchwil hwn wedi golygu bod ein hastudiaeth yn gweithredu fel peilot yn bennaf. Er y gellir dod i rai casgliadau o'r adolygiad llenyddiaeth a'r data a gasglwyd, nid yw'r honiadau hyn yn ceisio portreadu'r darlun cyflawn o ddysgu yn yr awyr agored yng Nghymru. Yn hytrach nag ateb pob cwestiwn ymchwil yn annibynnol, nod y drafodaeth hon bellach yw cyflwyno canfyddiadau o'r data a gasglwyd heb ragdybio unrhyw gasgliadau pellach yn seiliedig ar y diffyg ymatebion.

## 5.1 Myfyrdodau dangosol o adolygiad llenyddiaeth

Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn darparu onglau amrywiol ar gyfer myfyrdodau ac yn darparu gwybodaeth berthnasol i'w hadolygu. Mae'r maes llenyddiaeth a adolygwyd yn dangos bod ysgolion yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu cyfleoedd i blant archwilio a dysgu yn yr amgylchedd naturiol. Yn ogystal, mae dysgu yn yr awyr agored wedi profi i fod o fudd sylweddol i staff a disgyblion o ran eu hiechyd, eu lles, a'u datblygiad academaidd (Gilchrist ac Emmerson, 2016; Barford a Daugbjerg, 2018; Marchant *et al*., 2019, French et al. 2021). Er bod llawer o astudiaethau'n cydnabod manteision y math hwn o brofiad, mae'r canfyddiad ei fod yn anodd ei drefnu, yn ddwys o ran adnoddau a chynllunio, ac o bosibl yn beryglus, yn glir (Barford a Daugbjerg, 2018; Marchant *et al*., 2019; Williams a Scott, 2019). Roedd un thema allweddol, sef bod 'dysgu go iawn' yn cael ei wneud mewn ystafelloedd dosbarth, i'w gweld drwy gydol yr adolygiad llenyddiaeth ac roedd yn adlewyrchu allbynnau ymchwil Maynard *et al*. (2011).

Mae'r llenyddiaeth a adolygwyd yn dangos bod bylchau sylweddol o ran deall beth yw dysgu yn yr awyr agored, a sut y gellir ei ddefnyddio i ymdrin â'r cwricwlwm. Gall amharodrwydd athrawon i ddefnyddio'r addysgeg ddatgelu eu diffyg diddordeb mewn rhoi cynnig ar addysgeg newydd, eu hanghenion heb eu diwallu am gymorth wrth roi cynnig ar ddulliau newydd o addysg, a'u camddealltwriaeth bosibl o'r pwnc yn gyfan gwbl; gallai hyd yn oed fod yn gyfuniad o'r tri. Am y rheswm hwn, nod ein hastudiaeth oedd deall yr hyn yr oedd athrawon yng Nghymru yn ei ddeall am ddysgu yn yr awyr agored a sut y gwnaethant roi'r ymarfer ar waith yn eu gwersi.

Er bod dysgu yn yr awyr agored yn cael ei gydnabod fel rhywbeth sy'n cefnogi datblygiad a dysgu gydol oes (Boulton a Thomas, 2022), mae'n ymddangos nad yw ymarferwyr wedi paratoi'n ddigonol, ac yn brin o wybodaeth a hyder i ddefnyddio addysgeg awyr agored (Davies a Hamilton, 2018). Mae angen dysgu a datblygiad proffesiynol priodol ym maes dysgu yn yr awyr agored i rymuso ymarferwyr wrth iddynt gynllunio a chyflwyno Cwricwlwm i Gymru (LlC, 2021). Er mwyn cefnogi ymarferwyr yn y maes addysgeg hwn, rydym yn cydnabod bod angen newid patrwm ac felly rydym yn awgrymu:

- Cymunedau dysgu proffesiynol mewn dysgu yn yr awyr agored a'r cwricwlwm
- Arsylwi arferion da cydweithwyr er mwyn cynyddu hyder
- Cydweithio i gyd-lunio cynlluniau gwersi dysgu yn yr awyr agored

## 5.2 Trafodaeth o ddata a gasglwyd

Mae ein data yn dangos bod dysgu yn yr awyr agored yn cael ei ddosbarthu ar draws pob grŵp oedran, lleoliad, a staff addysgu. Roedd yr arolwg yn cynnig llawer o gyfleoedd i athrawon nodi sut roedd eu gweithgareddau dysgu awyr agored yn berthnasol i wahanol ffocws pob sesiwn, cysylltiadau cwricwlwm ar gyfer pob sesiwn, a 4 diben addysg ym mhob sesiwn. Gofynnwyd i athrawon nodi a oedd eu nodau ar gyfer eu dysgu yn yr awyr agored wedi'u cynllunio i gyflwyno unrhyw un o'r pynciau hyn ac a oeddent wedi'u cyflawni. Mae'r data a gasglwyd yn nodi amrywiaeth o nodau wedi'u cynllunio a'u cyflawni ar gyfer pob un o'r tri maes ffocws hyn, a all ddangos bod athrawon yn deall amlbwrpasedd dysgu yn yr awyr agored. Fodd bynnag, gellir gwrth-ddweud y dybiaeth hon gan y ffaith bod llawer o ymatebion yn debyg gan fod llawer wedi cofnodi 'gweithgareddau/sgiliau ymarferol' a 'chwarae/mwynhau/hamdden' fel 'ffocws y sesiynau', ac felly’n awgrymu bod dealltwriaethau confensiynol o ddysgu yn yr awyr agored yn rhywbeth o natur gorfforol. Er mwyn hyrwyddo'r naratif hwn, mae data a gasglwyd yn adran 'cysylltiadau â’r cwricwlwm' yr arolwg i gyd yn gymharol isel (allan o gyfanswm o 12 ymateb), a allai ddangos nad yw athrawon yn hyderus y gall dysgu yn yr awyr agored fynd i’r afael yn ddigonol â holl feysydd y cwricwlwm. Gyda dim ond dau o'r pedwar diben' yn cael eu dewis yn sylweddol, mae athrawon hefyd wedi nodi gogwydd tuag at ddibenion sy'n pwyso tuag at natur gorfforol, ac felly'n dangos sut nad yw eu dealltwriaeth o ddysgu yn yr awyr agored o reidrwydd yn berthnasol i'r cwricwlwm cyfan. Yn olaf, pan ofynnwyd am 'effeithiau ar ddysgu', roedd yr holl ymatebion yn is na’r 75 canradd o gredu bod dysgu yn yr awyr agored yn gwella ansawdd y dysgu (o gymharu â dysgu dan do).

Er bod ein cyfradd ymateb yn isel, mae’r data a gasglwyd yn dal i awgrymu nad yw athrawon yn credu y gall dysgu yn yr awyr agored ymdrin a phob agwedd ar y cwricwlwm a dysgu yn effeithiol. Gall hyn fod oherwydd diffyg dealltwriaeth o'r term 'dysgu yn yr awyr agored' a sut y gellir ei ddefnyddio fel addysgeg i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Heb wybodaeth am beth yw dysgu yn yr awyr agored, sut y gellir ei ddefnyddio, a sut y gall fod o fudd i addysgu a dysgu, efallai na fydd athrawon yn ei ddefnyddio’n fwriadol. Gall athrawon ddefnyddio strategaethau dysgu yn yr awyr agored a pheidio â'u categoreiddio fel y gwelwyd yn yr adran ‘ffocws y sesiynau' pan oedd dysgu'n digwydd fel sgil-gynnyrch a heb ei gynllunio. Heb sgiliau ac ymarfer, efallai na fydd hyd yn oed gwybodaeth ddamcaniaethol o ddysgu yn yr awyr agored (fel yr hyn a ddysgwyd gan athrawon dan hyfforddiant mewn rhaglenni TAR ac AGA cysylltiedig) yn troi’n addysgeg go iawn. Mae angen dull systematig o wreiddio dysgu ystyrlon. Mae ein hastudiaeth yn datgelu naratif tebyg i'r hyn a awgrymwyd gan Maynard *et al*. (2011): mae athrawon yn credu bod 'gwaith go iawn' a 'dysgu go iawn' yn digwydd dan do ac felly mae dysgu yn yr awyr agored yn fwy o ychwanegiad nag addysgeg gynhwysol.

Am y rhesymau hyn, mae ein hastudiaeth wedi dangos yr angen i athrawon a rhanddeiliaid addysg eraill gael eu haddysgu ynghylch sut y gellir defnyddio dysgu yn yr awyr agored fel dull addysgu i gyflwyno’r cwricwlwm cyfan. Yn ogystal, mae angen i ymarferwyr ddysgu sut, pryd, a pham i ddefnyddio dysgu yn yr awyr agored er budd datblygiad plant a gwella profiadau addysgu a dysgu. Pe bai athrawon a staff cefnogi yn credu yng ngwerth dysgu yn yr awyr agored, ac yn cael eu cefnogi yn eu hymdrechion i gyflawni’r nodau hyn, mae’n bosibl y byddai dysgu yn yr awyr agored yn troi o fod yn ychwanegiad ymylol i fod yn ymarfer addysgeg prif ffrwd ledled Cymru.

# 6. Casgliadau

Ceir casgliadau o'r adolygiad llenyddiaeth a'r data a gasglwyd, sy'n cyfuno i adrodd naratif bod dysgu yn yr awyr agored hyd yma yn cael ei gamddeall a'i danddefnyddio yng Nghymru.

Heb ddiffiniad gweithredol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored, gall fod yn anodd i ysgolion sefydlu dysgu yn yr awyr agored fel addysgeg i ddod yn rhan o'u cynlluniau strategol. Cynhyrchwyd cefnogaeth swyddogol ar y mater hwn ddiwethaf yn 2009 ac mae'n ymwneud â'r Cyfnod Sylfaen yn unig (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009). Gyda chyflwyniad Cwricwlwm i Gymru (LIC, 2021), a'r annibyniaeth o ganlyniad i hynny y gall ysgolion greu eu cwricwla ag ef, mae ein hastudiaeth yn rhoi rhesymau i ddadlau bod angen canllawiau wedi'u diweddaru ar ysgolion ar sut a beth y gall dysgu yn yr awyr agored ei ychwanegu at brofiadau addysgol, gan wella addysgu a dysgu, a chynnal lles mewn ysgolion. Enghraifft o'r math hwn o ganllawiau yw *Building your Curriculum: Outside and In* (Education Scotland, 2020), sy'n cynnig arweiniad, nid gofynion, i ysgolion eu dilyn. Gyda dogfennau fel y rhain, efallai y bydd athrawon yn dechrau credu'r hyn yr awgryma Maynard *et al*. (2011): nad yw rhoi'r cyfle i blant archwilio a chwarae yn yr amgylchedd awyr agored, ynddo'i hun, yn ddigon. Mae'r alwad hon i ddysgu fod â ffocws, yn hytrach nag ad-hoc, yn cael ei gefnogi ymhellach gan Gilchrist ac Emmerson (2016) sy'n amlygu bod angen cymorth ar ysgolion i feithrin eu gwybodaeth a'u hyder i gyflwyno dysgu cwricwlaidd yn yr awyr agored mewn ffordd greadigol ac effeithiol; felly, ail-gastio dysgu yn yr awyr agored fel addysgeg.

## 6.1 Argymhellion

Mae argymhellion dilys wedi dod i'r amlwg o'r astudiaeth nas rhagwelwyd yn wreiddiol, mae'r rhain yn ymwneud â'r offeryn casglu data, y diwylliant ymchwil mewn addysg yng Nghymru, a pherthnasedd addysg awyr agored yng Nghymru.

Roedd y penderfyniad i ail-weithio a defnyddio arolwg Yr Alban ar gyfer ein casglu data yn seiliedig ar ei ddilysrwydd a'i ddibynadwyedd profedig; fodd bynnag, mae myfyrdodau ar y penderfyniad hwn wedi'u hailystyried ers hynny. Roedd arolwg Yr Alban yn dibynnu ar barodrwydd athrawon i gymryd rhan, eu gwybodaeth am addysg awyr agored, ac amser. Nid yn unig y digwyddodd ein hastudiaeth ar adeg o'r flwyddyn pan fo dysgu yn yr awyr agored yn llai tebygol o ddigwydd oherwydd y tywydd, gallai troi'r arolwg o fod yn holiadur papur i fod yn un ar gyfrifiadur fod wedi cyfrannu at y gyfradd ymateb isel hefyd. Am y rhesymau hyn, rydym yn argymell bod arolwg newydd yn cael ei gynllunio i wasanaethu'r amodau yng Nghymru. Dylid esbonio'r arolwg i ysgolion sydd â diddordeb (ac ar yr un pryd gweithio gyda nhw i ddiffinio a deall dysgu yn yr awyr agored yn fwy trylwyr yn y lle cyntaf), ei gynnal am gyfnod hirach, a dylid cynnig cymorth i ysgolion sy'n cymryd rhan. Fel hyn, rydym yn gobeithio y bydd mwy o ysgolion yn gweld yr angen am y math hwn o gasglu data ac yn datblygu eu gwybodaeth a'u harferion eu hunain ynghylch dysgu yn yr awyr agored fel sgil-gynnyrch yr astudiaeth hon.

Mae angen cefnogi amserlen hwy ar gyfer recriwtio a chyfranogiad ysgolion i ymwneud ag unrhyw astudiaeth yn y dyfodol. Rydym hefyd yn argymell defnyddio cyllid i ryddhau aelod o staff o bob ysgol sy'n cymryd rhan i drafod yr astudiaeth gyffredinol, ei nodau a'i hamcanion, ac i sefydlu gwaelodlin ar gyfer yr hyn i'w gynnwys a'i eithrio ar gyfer dysgu yn yr awyr agored, i gyd o fudd i ddylunio astudiaeth ymchwil bellach. Gobeithiwn y bydd hyn yn helpu athrawon i ddeall y pwnc yn well a dangos iddynt pa mor hawdd a gwerth chweil yw cymryd rhan.

Argymhelliad posib yw atgynhyrchu'r astudiaeth gyda chyfnod casglu data hirach yn ystod y gwahanol dymhorau ysgol, gan ymchwilio i sut y gallai'r tywydd fod wedi effeithio ar sesiynau a gynlluniwyd, addasu'r sesiynau hynny, eu gohirio neu eu gadael ar eu canol. Yn ogystal, dylid dosbarthu holiaduron ar ddechrau tymhorau fel y gall athrawon, penaethiaid a chynorthwywyr addysgu ystyried ychwanegu dysgu yn yr awyr agored i gwricwlwm eu tymor yn gynnar, yn hytrach nag yn ystod y tymor academaidd. Bydd hyn yn osgoi gogwyddo'r data yn ôl ffenestr oportiwnistaidd o hyblygrwydd a newid ymddygiad (Behavioural Insights Team, 2014). Bydd hyn wedyn yn hwyluso'r defnydd o ddysgu yn yr awyr agored gyda'r Cwricwlwm i Gymru (LIC, 2021) i gyd-fynd â chyrsiau dysgu awyr agored DPP pellach (French. *et al*, 2021) i fod yn hyderus ac wedi ymrwymo i gyflawni'r darpariaethau (RSPB, 2012).

Gyda'r diwylliant ymchwil gweithredol mewn ysgolion yng Nghymru, mae angen i athrawon wir ddeall pam fod pob astudiaeth ymchwil yn bwysig, a gallu cymryd rhan yn hawdd yn yr ymchwil. Roedd y cyfnod amser byr a roddwyd ar gyfer ein hastudiaeth yn cyfyngu ar ein gallu i addasu'r offeryn arolwg yn unol â'r argymhellion hyn, ac felly ni chawsom y nifer uchel o ymatebion a ddisgwyliwyd. Felly, roedd arolwg Yr Alban yn fan cychwyn da, ond roedd yr amserlen ar gyfer y project hwn, yr adeg o'r flwyddyn, a'r amser a gymerodd i gwblhau'r holiadur ar-lein i gyd yn effeithio'n negyddol ar ein cyfradd ymateb a'n proses casglu data.

### 6.1.1 Argymhellion ar gyfer astudiaeth bellach

- Adolygu cwestiynau ymchwil i archwilio dealltwriaeth ymarferwyr o ddysgu yn yr awyr agored, cynhyrchu diffiniad gweithredol, ac ymchwilio i rwystrau canfyddedig dysgu yn yr awyr agored
- Adolygu methodoleg gan gynnwys offeryn casglu data ac amserlen
- Gweithdai gyda'r ysgolion sy'n cymryd rhan

### 6.1.2 Argymhellion ar gyfer polisi

- Darparu canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer defnyddio dysgu yn yr awyr agored fel dull o addysgu'r cwricwlwm
- Adolygu cwricwla AGA a TAR i gynnwys dysgu yn yr awyr agored fel rhan sylfaenol o ymarfer pedagogaidd
- Blaenoriaethu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer addysgeg dysgu awyr agored fel rhan o roi Cwricwlwm i Gymru ar waith

### 6.1.3 Argymhellion ar gyfer ymarfer

- Creu cymunedau dysgu proffesiynol mewn dysgu awyr agored a'r cwricwlwm
- Arsylwi arferion da cydweithwyr i gynyddu hyder

- Cydweithio i gyd-lunio cynlluniau gwersi dysgu yn yr awyr agored a dulliau asesu yn yr awyr agored i ailddatgan y gall 'gwaith go iawn' ddigwydd yn yr awyr agored

## 7. Cyfeiriadau


Barford, K a Daugberg, P. (2018). Potentials in Udeskole: Inquiry-Based Teaching Outside the classroom. Frontiers in Education.Vol.3. Rhif Adnabod Gwrthrych Digidol (DOI): 10.3389/feduc.2018.00034

Becker, C., Lauterbach, G., Spengler, S., Dettweiler, U. a Mess, F. (2017). Effects of Regular Classes in Outdoor Education Settings: A Systematic Review on Students' Learning, Social and Health Dimensions. *International Journal of Environmental research and Public Health. 14*(5) tt. 1-20. Rhif Adnabod Gwrthrych Digidol (DOI): 10.3390/ijerph14050485

Bilton, H. a Waters, J. (2017). Why Take Young Children Outside? A Critical Consideration of the Professed Aims for Outdoor Learning in the Early Years by Teachers from England and Wales. *Journal of social sciences*. *6*(1). Rhif Adnabod Gwrthrych Digidol (DOI): 10.3390/socsci6010001

Boulton, P. a Thomas, A. (2022) How does play in the outdoors afford opportunities for schema development in young children? *International Journal of Play*. Ar gael Ar-lein yn https://doi.org/10.1080/21594937.2022.2069348

Bozkurt, F. (2021). Outdoor social studies experiences of teacher candidates. *Journal of Qualitative Research in Education*, 28, tt. 183-203. Rhif Adnabod Gwrthrych Digidol (DOI): 10.14689/enad.28.8

Clarke. S., (2006). *Mills and Millipedes. Benefits of using urban settings for outdoor learning activities.* Synergy Learning. http://wwww.synergylearning.org

Davies, R. a Hamilton, P. (2018). Assessing learning in the early outdoors classroom: examining challenges in practice, *Education 3-13, 46*(1)*,* tt.117129. Rhif Adnabod Gwrthrych Digidol (DOI): 10.1080/03004279.2016.1194448

Dolan, A. (2015). Place-based curriculum making; devising a synthesis between primary geography and outdoor learning, *Journal of Adventure Education and Outdoor Learning*, *16*(1), tt. 49-62. Rhif Adnabod Gwrthrych Digidol (DOI): 10.1080/14729679.2015.1051563

Fägerstam, E. (2014). High school teachers' experience of the educational potential of outdoor teaching and learning. *Journal of Adventure Education & Outdoor Learning,* 14(1), 56-81. Rhif Adnabod Gwrthrych Digidol (DOI): 10.1080/14729679.2013.769887

French, G., Horder, S., Jones, C., Parry, D., Mahoney, N., Moody, J. a Rhys Jones, K. (2021). Effaith Pandemig Covid 19 ar ddyfodol darpariaeth AGA: Iechyd a lles dysgwyr ac ymarferwyr. https://hwb.gov.wales/professional-development/the-national-strategy-for-educational-research-and-enquiry-nsere/research-studies-on-the-impact-of-the-covid-19-pandemic-on-the-welsh-education-system/research-study-6

Gilchrist, M ac Emmerson. C. (2016). *Transforming Outdoor Learning in Schools Lessons from the Natura; Connections Project* https://www.plymouth.ac.uk/uploads/production/document/path/7/7634/Transforming_Outdoor_Learning_in_Schools_SCN.pdf

Institute for Outdoor Learning (2021). *Outdoor Learning.* *https://www.outdoor-learning.org/Portals/0/IOL%20Documents/About%20Outdoor%20Learning/RR1%20-%20Describing%20Outdoor%20Learning%202-8-21.pdf?ver=2021-08-10-133755-690*

Khwaengmek, V., Pitiporntapin, S., Pimthong, P. a Bukatunyoo, O. (2021). Perceptions of pre-service teachers about outdoor learning for STEM education in early childhood education. *Journal of Physics.* Rhif Adnabod Gwrthrych Digidol (DOI):10.1088/1742-6596/1957/1/012018

Learning and Teaching Scotland (2010). *Curriculum for excellence through outdoor learning. https://education.gov.scot/documents/cfe-through-outdoor-learning.pdf*

MacQuarrie, S. (2016). Everyday teaching and outdoor learning: developing an integrated approach to support school-based provision, *Education 3-13, 46*(3)*,* pp. 345-361. Rhif Adnabod Gwrthrych Digidol (DOI): 10.1080/03004279.2016.1263968

Mannion, G., Mattu, L. a Wilson, M. (2015). *Teaching, learning, and play in the outdoors: a survey of school and pre-school provision in Scotland*. Adroddiad Comisiwn Treftadaeth Naturiol yr Alban Rhif 779. https://dspace.stir.ac.uk/bitstream/1893/21623/1/SNH%202015%20TeachLearnPlay%20copy.pdf

Marchant, E., Todd, C., Cooksey, R., Dredge, S., Jones, H., Reynolds, D., Stratton, G., Dwyer, R., Lyons, R. a Brophy, S. (2019). Curriculum-based outdoor learning for children aged 9-11: A qualitative analysis of pupils' and teachers' views. *PLOSOone, 14(5).* Rhif Adnabod Gwrthrych Digidol (DOI): 10.1371/journal.pone.0212242

Maynard, T. a Chicken, S. (2010). Through a different lens: exploring Reggio Emilia in a Welsh context, *Early Years*, 30(1), tt. 29-39. Rhif Adnabod Gwrthrych Digidol (DOI): 10.1080/09575140903443000

Maynard, T., Waters, J. a Clement, J. (2011). Moving outdoors: further explorations of 'child-initiated' learning in the outdoor environment. *Education 3–13*, 2013, *41* (3), tt. 282–299. Rhif Adnabod Gwrthrych Digidol (DOI): 10.1080/03004279.2011.578750

Natural England (2012). *Learning in the Natural Environment: Review of social and economic benefits and barriers.* https://publications.naturalengland.org.uk/publication/1321181

Rural/Urban Classification (2011). *Map o'r MSOAs yng Nghymru*. https://geoportal.statistics.gov.uk/documents/fed098274cdf4bc18a9bbfe896ccf086/explore

Passy, R.A., Bentsen, P., Gray, T. a Ho, S. (2019). Integrating outdoor learning into the curriculum: an exploration of four nations, *Curriculum Perspectives, 39*, tt. 73-78. Rhif Adnabod Gwrthrych Digidol (DOI): 10.1007/s41297-019-00070-8

RSPB (2012). *Every Child Outdoors Wales*. https://www.rspb.org.uk/globalassets/downloads/documents/positions/education/everychild-outdoors---wales.pdf

Ystadegau Geoportal (2011). *Dosbarthiad Trefol Gwledig* https://geoportal.statistics.gov.uk/documents/fed098274cdf4bc18a9bbfe896ccf086/explore

Waite, S., Bolling, M. a Bentson, P. (2016). Comparing apples and pears?: a conceptual framework for understanding forms of outdoor learning through comparison of English Forest Schools and Danish *udeskole*, *Environmental Education Research,* 22(6), tt. 868-892. Rhif Adnabod Gwrthrych Digidol (DOI): 10.1080/13504622.2015.1075193

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009). *Cyfnod Sylfaen: Llawlyfr Dysgu yn yr Awyr Agored*. https://hwb.gov.wales/api/storage/fcb8539c-9be7-4883-8542-35d7b54b56f2/foundation-phase-outdoor-learning-handbook.pdf

Llywodraeth Cymru (2021). *Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a dilyniant dysgwyr* https://gov.wales/renew-and-reform-supporting-learners-wellbeing-and-progression-html

Llywodraeth Cymru (2021). *Cwricwlwm i Gymru. https://hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru/cyflwyniad/*

Llywodraeth Cymru (2022). *Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin a Ariennir nas cynhelir*. https://hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-ar-gyfer-lleoliadau-meithrin-ariannu-nas-cynhelir/

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru MALlC (2019). https://wimd.gov.wales/about?lang=cy

Williams, T. a Scott, C. (2019). The current state of outdoor learning in a UK secondary setting; Exploring the benefits, drawbacks and recommendations. *Journal of Advanced Research* Vol. 8, No. 2, tt 109-118. DOI: 10.18034/abcjar.v8i2.537

# 8. Atodiadau

## Atodiad 1: Gwybodaeth a anfonwyd at gyfranogwyr

**Addysgu a dysgu yn yr awyr agored: cyflwr presennol dysgu yn yr awyr agored mewn ysgolion yng Nghymru**

Mae hwn yn broject ymchwil cydweithredol a ariennir gan Lywodraeth Cymru a gynhaliwyd gan dair prifysgol (Prifysgol Bangor, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam). Mae eich ysgol wedi cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth a bydd ymchwilwyr o *Brifysgol Bangor* yn casglu data gan eich ysgol. Mae'r ymchwil hon yn ceisio deall effaith pandemig COVID 19 ar iechyd a lles dysgwyr ac athrawon

**Sut byddwn ni'n gwneud hyn?**

1. Bydd ymchwilwyr o'r 3 prifysgol yn casglu, ac yn dadansoddi data a gasglwyd gan staff yr ysgol.
2. Bydd ymchwilwyr o'r tîm ymchwil yn gofyn i staff gymryd rhan mewn arolwg ar-lein dros gyfnod penodol o hyd at 8 wythnos.
3. Mae gan bob ymchwilydd o'r Ysgol Addysg dystysgrif DBS gyfredol.

**Sut byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth?**

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i ddeall sut mae dysgu yn yr awyr agored yn cael ei ddefnyddio mewn ysgolion yng Nghymru, sut mae'n cael ei ddefnyddio i gefnogi plant sy'n dychwelyd i'r ysgol yn ystod pandemig Covid 19 a phwy sy'n darparu'r gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored.

1. Byddwn yn rhannu ein canfyddiadau â'r prifysgolion sy'n cydweithio â ni (Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam) a bydd adroddiad terfynol ar ein canfyddiadau yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mawrth 2022.
2. Gallwn hefyd gyflwyno'r wybodaeth, gan gynnwys dyfyniadau dienw, mewn seminarau a chynadleddau yn y dyfodol a'i chynnwys mewn cyhoeddiadau.
3. Defnyddir ffug-enwau ar gyfer yr holl wybodaeth h.y. ni ddefnyddir enwau go iawn y cyfranogwyr. Dim ond yr ymchwilwyr fydd â mynediad at enwau'r unigolion sy'n cymryd rhan yn y project. **Ni chaiff unrhyw unigolyn ei enwi mewn unrhyw adroddiad, cyflwyniad cynhadledd neu gyhoeddiad arall. Fodd bynnag, ni ellir gwarantu y bydd y cyfranogwyr hynny sy'n cymryd rhan mewn cyfweliadau grŵp neu drafodaethau grŵp yn gwbl ddienw, gan y byddant yn hysbys i'r cyfranogwyr eraill.**

**Beth yw eich hawliau, a hawliau'r cyfranogwyr?**

1. Cymerir rhan yn y project yn wirfoddol. Gwahoddir staff i gymryd rhan ond nid oes angen iddynt wneud hynny. Ni fydd unrhyw ganlyniadau negyddol i unrhyw un sy'n dewis peidio â chymryd rhan.
2. Os bydd staff yn cytuno i gymryd rhan ond yn penderfynu yn ei erbyn yn ddiweddarach, gallant wneud hynny ar unrhyw adeg cyn cyflwyno neu gyhoeddi. Er mwyn galluogi hyn i ddigwydd, mae angen cadw cofnod o enwau cyfranogwyr fel y gellir olrhain eu cyfraniad a'i olygu os mai dyna yw eu dymuniad.

**Diogelu**

1. Os datgelir unrhyw wybodaeth yn ystod y broses o gynhyrchu data sy'n peri pryder am ddiogelwch neu les unigolyn neu blentyn, caiff y mater ei gyfeirio at swyddog diogelu'r ysgol.
2. Os datgelir unrhyw wybodaeth am drosedd neu derfysgaeth, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at yr ysgol a'r heddlu.

**Diogelwch**

Bydd yr holl ddata a gesglir yn ystod y project yn cael ei storio'n ddiogel ar system a ddiogelir gan gyfrinair yn unol â pholisïau ***Prifysgol Bangor***. Bydd unrhyw gopïau papur o wybodaeth yn cael eu storio'n ddiogel mewn man dan glo.

**Ymholiadau pellach**: **Graham French** g.k.french@bangor.ac.uk

## Ffurflen gydsynio staff

Teitl y project: **Addysgu a dysgu yn yr awyr agored: cyflwr presennol dysgu yn yr awyr agored mewn ysgolion yng Nghymru**

Enw'r prif ymchwilydd: Graham French (Prifysgol Bangor)

______________________________________________________________

**Dylai staff ddarllen a rhoi eu blaenlythrennau ym mhob blwch yn y ffurflen isod.**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y daflen wybodaeth ar gyfer yr astudiaeth uchod | |
| 2 | Rwy'n deall bod fy nghyfraniad yn wirfoddol ac na fydd unrhyw ganlyniadau negyddol os byddaf yn dewis peidio â chymryd rhan. | |
| 3 | Rwy'n deall y gallaf dynnu'n ôl o'r astudiaeth ar unrhyw adeg cyn cyflwyno neu gyhoeddi | |
| 4 | Rwy'n deall na fydd enwau **go iawn** y cyfranwyr byth yn cael eu defnyddio mewn unrhyw gyflwyniad na chyhoeddiad | |

**Rwy'n cydsynio i gymryd rhan yn yr astudiaeth.** **Rhowch gylch:** YDW NAC YDW

______________________________________________________________

Llofnod

______________________________________________________________

Dyddiad

**Atodiad 2: Yr Arolwg**

# Tudalen 1: Trosolwg o'r Project

Addysgu, a dysgu yn yr awyr agored: cyflwr presennol dysgu yn yr awyr agored mewn ysgolion yng Nghymru

Mae'r project hwn yn ceisio adeiladu ar astudiaeth flaenorol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a ymchwiliodd i effaith pandemig Covid-19 ar iechyd a llesiant plant, pobl ifanc, gweithwyr addysg proffesiynol a darparwyr AGA. Dangosodd ganfyddiadau'r astudiaeth fod 'Dysgu yn yr awyr agored yn chwarae rhan gynyddol, yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol, wrth gefnogi lles corfforol a meddyliol', ac roedd argymhelliad dilynol yn galw am '… fwy o gefnogaeth i ddysgu yn yr awyr agored.'

Gan fod dysgu yn yr awyr agored wedi chwarae rhan arwyddocaol yn iechyd a lles plant a phobl ifanc yn ystod y pandemig, mae'n rhesymol awgrymu y bydd yn parhau i chwarae rhan wrth gefnogi cymunedau ysgolion a'u haelodau wrth iddynt ddod dros hyn i gyd.

Ar hyn o bryd mae bwlch yn y sylfaen dystiolaeth ynghylch pa mor aml y mae ysgolion yn cymryd rhan mewn dysgu yn yr awyr agored, ac ar ba ffurf y mae'r dysgu yn yr awyr agored hwn. Er mwyn sicrhau mynediad dwyieithog cyfartal ac o ansawdd uchel i ddysgu yn yr awyr agored i holl blant Cymru, mae angen gweledigaeth strategol genedlaethol, ac mae angen i hyn gael ei lywio gan y sefyllfa bresennol o ran y ddarpariaeth.

Mae'r project hwn yn defnyddio dull y dangoswyd eisoes ei fod yn effeithiol ac yn ddibynadwy o astudiaethau blaenorol yn yr Alban a bydd yn darparu tystiolaeth o gapasiti dysgu awyr agored presennol ysgolion yng Nghymru. Mae gan y data a gasglwyd o'r astudiaeth hon y potensial i sefydlu gwaelodlin ar gyfer Cymru a chefnogi dosbarthiad effeithiol o adnoddau yn y dyfodol ac amlygu arferion da i'w rhannu.

# Tudalen 2: Hysbysiad Preifatrwydd a Chydsyniad

- Cadarnhaf fod yr ysgol wedi derbyn y daflen wybodaeth a bod y pennaeth wedi cydsynio i'r ysgolion gymryd rhan yn y project hwn.
- Rwy'n deall fy mod yn cymryd rhan o'm gwirfodd ac y gallaf dynnu'n ôl ar unrhyw adeg, heb roi unrhyw reswm a heb unrhyw ganlyniadau i mi fy hun.
- Rhoddaf ganiatâd i'm data gael eu storio a'u prosesu yn unol â GDPR (2018).
- Rwy'n cytuno i'm data dienw gael ei ddefnyddio mewn adroddiadau astudiaeth benodol ac erthyglau dilynol a fydd yn ymddangos mewn cyfnodolion academaidd fel rhan o'r astudiaeth hon.

Drwy gwblhau'r arolwg hwn rwy'n cydsynio ac yn cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth Angenrheidiol

- Rwy'n cydsynio ac yn cytuno

## Tudalen 3: Gwybodaeth Gyd-destunol ar Sesiwn Dysgu yn yr Awyr Agored

Llenwch y blychau canlynol i roi gwybodaeth gyd-destunol ar eich sesiwn dysgu yn yr awyr agored ddiwethaf

- Dyddiad y sesiwn:
- Grŵp/grwpiau blwyddyn dan sylw:
- Amser a dreuliwyd yn yr awyr agored:
- Nifer y disgyblion a gymerodd ran yn y sesiwn
- Faint o ddisgyblion gwrywaidd oedd yn y sesiwn?
- Faint o ddisgyblion benywaidd oedd yn y sesiwn?
- Cyfanswm yr oedolion yn y sesiwn
- O'r cyfanswm a ddarparwyd gennych uchod, rhowch fanylion pellach

.

| | Athro/athrawes | Cynorthwyydd Addysgu | Rhiant/gofalwr: | Arall: |
|---|---|---|---|---|
| Oedolion a oedd yn cymryd rhan yn y sesiwn (Ticiwch bob un sy'n berthnasol) | | | | |

(Os gwnaethoch roi tic wrth 'arall', rhowch fanylion)

## Tudalen 4: Ffocws y Sesiwn

- Ticiwch bob un o'r bocsys sy'n berthnasol

Pa ffocws oedd i'ch sesiynau?

| | Ticiwch y rhai a gynlluniwyd | Ticiwch y rhai a ddigwyddodd |
|---|---|---|
| Natur / Cymdeithas-natur / Ymdeimlad o le | | |
| Cymdeithas: Cysylltiadau Cymdeithasol/Diwylliannol/Cymunedol | | |
| Datblygiad unigol neu bersonol | | |
| Astudio neu ddysgu am Gymru | | |
| Gwaith tîm/gweithio gydag eraill/datblygu grwpiau | | |
| Lles personol / cymdeithasol | | |
| Gweithgareddau / sgiliau ymarferol | | |
| Gwarchod natur neu dreftadaeth ddiwylliannol | | |
| Dylanwadu ar newid / Hyrwyddo achos | | |
| Chwarae / mwynhad / hamdden | | |

| | | |
|---|---|---|
| Gwaith Maes | | |
| Gweithgaredd antur | | |
| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | | |
| Arall (ychwanegwch) | | |

- Meysydd cwricwlwm yr ymdriniwyd â hwy drwy Feysydd Dysgu Cymru

| | Ticiwch y rhai a gynlluniwyd | Ticiwch y rhai a ddigwyddodd |
|---|---|---|
| Celfyddydau Mynegiannol | | |
| Dyniaethau | | |
| Iechyd a Lles | | |
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | | |
| Mathemateg a Rhifedd | | |
| Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu | | |

- Cysylltiadau â'r Pedwar Diben

| | Ticiwch bob un sy'n berthnasol |
|---|---|
| Dysgwyr galluog ac uchelgeisiol, yn barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau | |
| Cyfranwyr mentrus a chreadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith | |
| Dinasyddion egwyddorol a gwybodus o Gymru a'r byd | |
| Unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas | |

**9.**Ymgysylltiad- O'i gymharu â lleoliadau dan do, roedd plant i'w gweld yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored … (Ticiwch yr un mwyaf priodol, os gwelwch yn dda)

- Yn fwy na'r arfer
- Tua'r un faint
- Yn llai na'r arfer
- Methu â dweud

Gwobrau/Cynlluniau

| | Ticiwch bob un sy'n berthnasol |
|---|---|
| Eco-ysgolion | |
| John Muir | |

| | |
|---|---|
| Gwobr Dug Caeredin | |
| Cadet y Fyddin | |
| ASDAN | |
| Prince’s Trust | |
| Ysgolion Iach | |
| Arall: | |

(Os gwnaethoch roi tic wrth ‘arall’, rhowch fanylion isod)

- Effaith ar Ddysgu. O'i gymharu â dysgu dan do, a wnaeth dysgu yn yr awyr agored yn ystod y sesiwn hon wella unrhyw rai o'r elfennau isod?

| | Ticiwch bob un sy’n berthnasol |
|---|---|
| Cynnydd | |
| Ehangder | |
| Personoli/Dewis (gyda’r disgyblion yn arwain) | |
| Perthnasedd | |
| Cydlyniad | |
| Her a Mwynhad (y naill a’r llall) | |
| Dim un o’r rhain | |
| Arall | |

Os gwnaethoch roi tic wrth ‘arall’, rhowch fwy o fanylion isod

Y dudalen olaf

- Diolch am gymryd rhan yn yr arolwg hwn.
- Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â: lisa.formby@glyndwr.ac.uk

# Atodiad 3: Enghraifft o Arolwg yr Alban

**Nursery daily log**

Teaching, Learning and Play in the Outdoors:
A Survey of School and Pre-school Provision

UNIVERSITY OF STIRLING

**DAILY LOG for NURSERIES**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Today's date:** | | **Today's Weather:** | | | |
| **Duration of morning session** | | **Number of girls attending:** | | **Number of boys attending:** | |
| **Duration of afternoon session** | | **Number of girls attending:** | | **Number of boys attending:** | |

| **Start time** | **Description of Main Outdoor Activity/ Activities** | **Approx. time outside (mins/hours)** | **Numbers outside** | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Girls** | **Boys** |
| 8am | | | | |
| 9am | | | | |
| 10am | | | | |
| 11am | | | | |
| 12 noon | | | | |
| 1pm | | | | |
| 2pm | | | | |
| 3pm | | | | |
| 4pm | | | | |
| 5pm | | | | |

**The Planned Purpose or Focus of Today's Outdoor Activities**

| | Tick any that were planned | | Tick any that were planned |
|---|---|---|---|
| Nature / Nature-society / Sense of Place | | Conservation of natural or cultural heritage | |
| Society: Social / Cultural / Community Links | | Influencing change / Advancing a cause | |
| Studying or 'Learning about Scotland' | | Play / Enjoyment / Leisure | |
| Individual or personal development | | Fieldwork | |
| Teamwork, working with others, developing groups | | Adventure Activity | |
| Personal / social wellbeing | | Assessment of learning | |
| Practical activities or skills | | | |
| Other (write in): | | | |

/Please turn over

| **Curriculum Areas Addressed** | Tick any that were addressed |
|---|---|
| Expressive Arts | |
| Health & Wellbeing | |
| Language / Literacy | |
| Maths / Numeracy | |
| Foreign Languages | |
| Religious & Moral | |
| Sciences | |
| Social Studies | |
| Technologies | |

| **Approaches to Learning & Interdisciplinarity** | Tick any that applied |
|---|---|
| Creativity | |
| ICT in Education | |
| Active Learning | |
| Peer Learning | |
| Collaborative / Cooperative | |
| 'Reggio Emilia' approach | |
| Interdisciplinary Learning | |
| Other (write in): | |

**Engagement Outdoors** (Circle ONE)
Compared to indoor settings, children's engagement in activities outdoors appeared to be:

| | | | |
|---|---|---|---|
| More Than Normal | About the Same | Less Than Normal | Unable to Say |

**Impact on Learning**
When compared to indoors settings, did the outdoor activities result in an enhancement of these elements in children's learning? (Tick any that applied)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Progression | | Breadth | | Personalisation / Choice | |
| Relevance | | Coherence | | Challenge and Enjoyment | |
| Depth | | None of these | | Other (write in): | |

**Thank you!**
**Your contribution is valuable to us.**
**Please return the completed form to your nursery / school's Research Coordinator.**

If you have any queries about this survey, please contact your school's nominated Research Co-ordinator. Alternatively, email Leanne (Research Assistant) at leanne.mattu@stir.ac.uk or phone/text 07881 928 177.

Education Scotland · Forestry Commission Scotland · Keep Scotland Beautiful · Cairngorms · Loch Lomond · Scottish Natural Heritage

36